



Canllawiau Cronfa Gymunedol GBE

Cynnwys

Beth yw Cronfa Gymunedol Great British Energy?	3
Sut mae'r Gronfa'n Gweithio – Y Tri Cham	3
Pwy sy'n gallu Gwneud Cais?	3
Pa Fathau o Brosiectau y gellir eu Cefnogi?	9
Monitro, Adrodd a Dysgu	23
Cymorth ar Gael a Manylion Cyswllt	24
Amodau Ariannu a Pharamedrau Grantiau	25
Gwybodaeth bwysig ynghylch y Broses	28
Cam 1 – Fframwaith Asesu	30
Cam 2 – Fframwaith Asesu	33
Cam 3 – Fframwaith Asesu	36
Atodiadau	39
Atodiad 1 – Asesu a Gwneud Penderfyniadau	39
Atodiad 2 - Sut i wneud Cais	41
Atodiad 3 - Cwestiynau Cyffredin am y Porth Ceisiadau	43

Beth yw Cronfa Gymunedol Great British Energy?

Mae Cronfa Gymunedol Great British Energy (GBECF) yn cefnogi cymunedau i ddatblygu ac berchenogi prosiectau ynni glân.

Mae'n darparu cyllid grant i helpu cymunedau i brofi a yw syniad prosiect yn ymarferol, ei ddatblygu'n gynnig cadarn sy'n barod i ddenu buddsoddiad, a sicrhau cyllid i adeiladu'r prosiect.

Mae'r Gronfa'n cefnogi prosiectau a fydd yn creu buddion i'r gymuned¹, ac yn helpu pobl leol i chwarae rhan weithredol yn y broses o symud tuag at ynni glân. Mae GBECF yn cefnogi prosiectau ar draws Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon.

Sut mae'r Gronfa'n Gweithio – Y Tri Cham

Mae GBECF wedi'i rannu'n dri cham:

- **Cam 1 – Dichonoldeb**
I ariannu'r asesiad dichonoldeb cychwynnol ar gyfer prosiect.
- **Cam 2 – Datblygu**
I ariannu datblygu prosiectau hyd at y Penderfyniad Buddsoddi Terfynol.
- **Cam 3 – Cyfalaf**
I ariannu'n rhannol adeiladu prosiectau parod i'w hadeiladu.

Caiff pob cam o'r broses ariannu ei asesu'n annibynnol, ac mae ganddo ei ofynion cymhwysedd, ei feini prawf asesu a'i derfynau ariannu ei hun. Nid oes angen i ymgeiswyr fod wedi derbyn cyllid o gam blaenorol er mwyn gwneud cais. Er mwyn bod yn llwyddiannus, rhaid i ymgeiswyr ddangos eu bod yn bodloni'r holl ofynion ar gyfer y cam ariannu y maent yn gwneud cais amdano. Gall prosiectau wneud cais am y cam sy'n cyfateb i'w lefel parodrwydd. Nid yw cael cyllid ar un cam yn gwarantu cyllid ar unrhyw gam diweddarach.

Pwy sy'n gallu Gwneud Cais?

Rhaid i ymgeiswyr cymwys fod wedi'u lleoli yn Lloegr, Cymru neu Ogledd Iwerddon,² bod yn sefydliad cymunedol sydd wedi'i ymgorffori'n gyfreithiol o fath a nodir isod, a bod ganddynt gyfrif banc gyda dau lofnodwr ar y cyfrif.

Mathau cymwys o sefydliadau cymunedol:

- Sefydliad Corfforedig Elusennol (CIO)

¹ Mae buddion cymunedol yn cyfeirio at y gwerth cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol mesuradwy a gynhyrchir gan brosiect ar gyfer y gymuned leol, y tu hwnt i ddarpariaeth uniongyrchol yr ased ynni ei hun. Mae'n sicrhau bod cymunedau nid yn unig yn cynnal prosiectau, ond eu bod hefyd yn rhannu'n weithredol yn y canlyniadau, gan gynnwys dylanwad ar benderfyniadau, mynediad at fuddion, a chyfran barhaol yn y gwerth a grëwyd.

² Mae Cynllun Ynni Adnewyddadwy a Chymunedol (CARES) yn cynnig cymorth datblygu ac ariannol ar gyfer prosiectau sydd wedi'u lleoli yn yr Alban.

- Cymdeithas Budd Cymunedol (CBS neu Bencom)
- Cwmni Buddiant Cymunedol (CIC)
- Cymdeithas Gydweithredol
- Ymddiriedolaeth Ddatblygu
- Cymdeithas Cyn-gychwyn
- Elusen Gofrestredig Gorfforaethol
- Landlord Cymdeithasol Cofrestredig (gweler y paragraff isod am Awdurdodau Lleol)
- Cymdeithas Gofrestredig
- Cyngor Tref, Plwyf neu Gymuned

Yn ogystal â bod yn fath o sefydliad cymunedol cymwys, dylai ymgeiswyr ddarparu eu cyfrifon blynyddol statudol diweddaraf, yn ddelfrydol yn cwmpasu hyd at dair blynedd o berfformiad ariannol. Lle nad oes gan sefydliad gyfrifon blynyddol statudol ar gael (er enghraifft, oherwydd ei fod wedi'i ymgorffori'n ddiweddar), bydd yn parhau i fod yn gymwys i wneud cais. Yn yr amgylchiadau hyn, rhaid i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth amgen sy'n ddigonol i ddangos sefyllfa ariannol y sefydliad a'i allu i reoli cyllid cyhoeddus.

Fan lleiaf, rhaid i ymgeiswyr ddarparu:

- naill ai eu cyfrifon blynyddol statudol diweddaraf (lle maent ar gael) neu wybodaeth ariannol arall, fel cyfrifon rheoli, drafftiau o ddatganiadau ariannol, neu ddatganiad o asedau, rhwymedigaethau ac incwm; a
- gwybodaeth sy'n dangos gallu'r sefydliad i reoli cyllid grant a gwariant prosiect.

Gellid gofyn hefyd i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth ategol lle bo hynny'n berthnasol, gan gynnwys:

- tystiolaeth o brofiad perthnasol o reoli cyllid neu brosiectau o fewn y sefydliad;
- manylion trefniadau llywodraethu ariannol, gan gynnwys goruchwyliaeth gan y bwrdd neu ymddiriedolwyr, rheolaethau ariannol a llofnodwyr awdurdodedig;
- manylion partneriaid cyflawni, sefydliadau rhiant, cyrff atebol neu drefniadau eraill sy'n darparu goruchwyliaeth ariannol; a
- rhagolygon cyllidebau, rhagamcanion llif arian neu wybodaeth cynllunio ariannol arall.

Rhaid i ymgeiswyr ddangos bod ganddynt drefniadau rheoli ariannol priodol ar waith a'u bod yn gallu rheoli cyllid grant yn gyfrifol. Lle nad yw GBE yn fodlon bod y trefniadau hyn

yn ddigonol, gellir gwrthod y cais neu gellir gwneud cyllid yn amodol ar ddarparu sicrwydd pellach.

Bydd yr asesiad yn ystyried swm y cyllid a ofynnir amdano, natur a chymhlethdod y gweithgaredd arfaethedig a'r risgiau ariannol dan sylw. Bydd GBE yn adolygu'r wybodaeth ariannol a'r dystiolaeth ategol a ddarperir yn y ffurflen gais i fodloni ei hun bod gan y sefydliad y capasiti ariannol a'r rheolaethau angenrheidiol i reoli'r grant yn briodol.

Ffenestri ac Amserlen y Broses Ymgeisio

- Bydd y cyfnod ymgeisio yn agor ddydd Iau 17^{eg} Medi 2026 ac yn cau ar 12^{fed} Tachwedd 2026 am 11:55yh.
- Rhaid clirio a hawlio'r holl gyllid grant erbyn 31^{ain} Mawrth 2028, oni bai eich bod yn brosiect Cam 1 sydd wedi gofyn am daliad ymlaen llaw.
- Bydd un cyfnod ymgeisio, gyda'r posibilrwydd o gyfnodau pellach os bydd cyllid yn parhau i fod ar gael.

Gofynion ar gyfer Perchnogaeth a Buddiannau Cymunedol

Mae GBEF yn cefnogi prosiectau sy'n rhoi cyfran benodol i gymunedau mewn prosiectau ynni glân ac yn sicrhau bod pobl leol yn cymryd rhan yn y penderfyniadau a'r manteision sy'n deillio o'r prosiectau hynny.

At ddibenion GBEF, rhaid i brosiect ddangos y ddau beth canlynol:

- **Perchnogaeth:** bydd gan y gymuned fuddiant cyfreithiol ac ariannol diffiniedig yn y prosiect.
- **Budd:** cedwir cyfran ddiffiniedig o fuddion y prosiect ar gyfer y gymuned leol, neu fe'u darperir iddi.

Perchnogaeth

Rhaid i ymgeiswyr ddangos y bydd gan y sefydliad cymunedol fuddiant cyfreithiol ac ariannol diffiniedig yn y prosiect.

Rhaid i'r sefydliad cymunedol fod â buddiant perchnogaeth cyfreithiol ac ariannol o 50% o leiaf yn y cwmni prosiect neu yn ased y prosiect pan fydd y prosiect yn weithredol. Yn achos cwmni prosiect, mae'r gofyniad o ran buddiant perchnogaeth cyfreithiol yn golygu dal o leiaf 50% o'r cyfalaf cyfranddaliadau a gyhoeddwyd a'r hawliau pleidleisio yn y cwmni a fydd yn berchen ar asedau'r prosiect. Ym mhob achos, mae'r gofyniad o ran buddiant ariannol o 50% yn golygu bod hawl i dderbyn o leiaf 50% o'r enillion ariannol a gynhyrchir ar gyfer perchnogion y prosiect.³

³ Ar gyfer modelau 'perchnogaeth ranedig', lle mae gan sefydliad cymunedol fuddiant perchnogaeth mewn un rhan neu ragor o brosiect ehangach, mae'r gofynion perchnogaeth cyfreithiol ac ariannol hyn yn berthnasol i'r rhannau hynny yn unig, ac nid i'r prosiect ehangach yn ei gyfanrwydd.

Budd

Rhaid i ymgeiswyr ddangos y bydd cyfran benodol o fuddion y prosiect yn cael eu cadw ar gyfer y gymuned leol, neu eu cyflwyno iddi.

Gall y manteision gynnwys:

- taliadau i gronfa budd cymunedol;
- cyfranddalwyr cymunedol yn derbyn enillion blynyddol ar fuddsoddiadau mewn cyfranddaliadau;
- ail-fuddsoddi incwm y prosiect mewn gweithgareddau cymunedol lleol;
- costau ynni is ar gyfer cyfleusterau cymunedol neu fuddiolwyr lleol;
- cyllid ar gyfer gwasanaethau lleol, cyngor ar ynni, sgiliau, hyfforddiant neu flaenoriaethau cymunedol eraill; neu
- buddion cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol eraill a ddarperir yn lleol.

Rhaid i ymgeiswyr egluro:

- pa fuddion a ddarperir;
- pwy fydd yn derbyn neu'n rheoli'r buddion hynny;
- sut y cyfrifir lefel y budd;
- pryd y disgwylir i'r buddion ddod i'r amlwg; a
- sut y bydd y buddion yn parhau, lle bo'n berthnasol, trwy gydol oes weithredol y prosiect.

Rhaid i'r buddion fod yn gysylltiedig â'r prosiect a rhaid eu bod yn gallu cael eu profi. Ni fydd datganiadau cyffredinol y bydd y prosiect o fudd i'r gymuned yn ddigonol.

Lleoliad y Prosiect

Rhaid i ymgeiswyr fod â pherthynas bresennol â'r gymuned a fydd yn cynnal y prosiect ac yn derbyn ei fuddion. Rhaid i ymgeiswyr ddangos:

- tystiolaeth o gefnogaeth gan y gymuned leol, gan gynnwys sut y mae pobl leol, sefydliadau neu randdeiliaid wedi cymryd rhan yn natblygiad y prosiect; a
- mecanwaith clir y bydd manteision y prosiect yn llifo drwyddo i'r gymuned honno, gan gynnwys pwy fydd yn elwa, natur y manteision hynny, a sut y cânt eu cyflwyno, eu cadw neu eu dosbarthu'n lleol.

Rhaid i ymgeiswyr ddarparu digon o dystiolaeth i gefnogi'r gofynion hyn. Ni fydd datganiadau cyffredinol bod gan brosiect gefnogaeth gymunedol neu y bydd yn darparu buddion cymunedol, heb dystiolaeth ategol, yn ddigonol. Mae'r ffurflen gais yn cynnwys cwestiynau ar ymgysylltu cymunedol, cynnwys cymunedol a buddion cymunedol a fydd yn cael eu defnyddio i asesu'r gofynion hyn.

Ceisiadau ar y Cyd

Croesewir ceisiadau ar y cyd, ond rhaid i chi nodi partner arweiniol, a rhaid i bob partner fod yn sefydliad cymwys sydd wedi'i restru yn y canllawiau hyn. Dim ond gyda'r partner arweiniol y bydd GBE yn ymrwmo i Gytundeb Cyllid Grant ac yn gwneud taliadau grant; y partner arweiniol fydd y sefydliad sy'n atebol i GBE am gyflawni'r prosiect, rheoli'r cyllid grant, a chydymffurfio â'r Cytundeb Cyllid Grant. Bydd unrhyw rwymedigaethau, neu rwymedigaethau eraill sy'n codi o dan y Cytundeb Cyllid Grant, yn parhau i fod yn gyfrifoldeb y partner arweiniol.

Ceisiadau gan Awdurdodau Lleol

Heblaw am Gynghorau Tref a Phlwyf, nid yw Awdurdodau Lleol yn gymwys i wneud cais am gyllid gan y GBECF. Fodd bynnag, gall cynghorau sydd wedi'u lleoli yn Lloegr ystyried gwneud cais am Grant Partneriaethau Lleol GBE, sy'n cael ei dreialu o fis Medi 2026 ymlaen.

Ceisiadau gan Ysgolion

Ni ellir derbyn ceisiadau'n uniongyrchol gan ysgolion. Fodd bynnag, gall grŵp cymunedol wneud cais am gyllid i ddatblygu seilwaith prosiect ar safleoedd ysgolion sy'n darparu budd cymunedol ehangach. Er enghraifft, gall y gymuned o amgylch ysgol ffurfio grŵp cymunedol i ddatblygu prosiect ar safle eu hysgol, neu gallai grŵp cymunedol presennol wneud hyn.

Lle cynigir prosiect ar safle ysgol, rhaid i'r ymgeisydd ddarparu tystiolaeth o gefnogaeth yr ysgol a'r tirfeddiannwr perthnasol ac egluro'r trefniadau arfaethedig ar gyfer mynediad i'r safle, perchnogaeth yr ased a ariennir, gweithredu a chynnal a chadw, defnyddio ynni a gynhyrchir, a dosbarthu buddion cymunedol. Ni fydd cyllid yn cael ei ddarparu lle mae'r buddion wedi'u cyfyngu'n bennaf i'r ysgol ac nad yw'r gofyniad budd cymunedol ehangach yn cael ei fodloni.

Ymgeiswyr yn gwneud eu Gwaith Dichonoldeb eu Hunain

Gall ymgeiswyr ymgymryd â gwaith dichonoldeb gan ddefnyddio eu staff eu hunain a chynnwys y costau hyn yn eu cais. Lle mae ymgeiswyr yn bwriadu cyflawni gwaith dichonoldeb yn fewnol, rhaid iddynt allu dangos bod gan yr unigolion sy'n ymgymryd â'r gwaith y sgiliau, y profiad a'r cymhwysedd sydd eu hangen. Gall GBE ofyn am dystiolaeth i gefnogi hyn.

Rhaid i unrhyw gyfraddau dyddiol a godir am waith dichonoldeb mewnol fod yn rhesymol, cynrychioli gwerth am arian, a bod yn gymharol â neu'n is na chyfraddau'r farchnad gyfredol ar gyfer gwasanaethau proffesiynol cyfatebol. Dylai cwrmpas ac ansawdd y gwaith a ddarperir hefyd fod yn gymharol â'r hyn y gellid ei gael yn rhesymol gan

ymgyngorydd allanol. Rhaid i ymgeiswyr ddatgelu'n glir unrhyw waith dichonoldeb mewnol arfaethedig a chostau cysylltiedig yn eu cais.

Ymgeiswyr sydd eisoes wedi derbyn cyllid Cam 1 a Cham 2

Mae'r adran hon yn gymwys i brosiectau sydd wedi derbyn cyllid yn flaenorol o dan GBECF neu gynlluniau cronfa ynni cymunedol blaenorol a weinyddwyd gan DESNZ, lle mae'r cais arfaethedig yn ymwneud â'r un prosiect neu brosiect sy'n debyg iawn iddo.

Gall ymgeisydd wneud cais am gyllid pellach ar gyfer prosiect sydd eisoes wedi derbyn cyllid gan GBECF neu gynllun ynni cymunedol blaenorol a gyflwynwyd gan DESNZ. Ni fydd GBECF yn darparu cyllid i ailadrodd, dyblygu nac amnewid gweithgareddau a ariannwyd yn flaenorol. Caiff ceisiadau am gyllid pellach eu hasesu ar eu rhinweddau, gan gynnwys a yw'r gweithgareddau arfaethedig yn wahanol i, ac yn ychwanegol at, weithgareddau a gefnogwyd drwy ddyfarniadau grant blaenorol, a ydynt yn cynrychioli gwerth am arian, ac a ydynt yn cyfiawnhau cyllid cyhoeddus pellach.

Ystyrir ceisiadau ychwanegol ar gyfer Cam 1 neu Gam 2 mewn perthynas â phrosiect sydd eisoes wedi derbyn cyllid Cam 1 neu Gam 2 os yw'n amlwg bod cylch gwaith y prosiect wedi newid yn sylweddol; er enghraifft, ychwanegu technoleg newydd, cynyddu capasiti, ymestyn y prosiect i asedau neu adeiladau ychwanegol, neu ymgymryd â gwaith datblygu pellach nad oedd wedi'i gynnwys yn y prosiect gwreiddiol a ariannwyd. Ni chefnogir ceisiadau ychwanegol lle nad oes newid sylweddol yn y cwrdd, yr amgylchiadau na'r gofynion cyflawni.

Ni ddylid gwneud ceisiadau ychwanegol i unioni gwaith o ansawdd gwael a ariannwyd drwy ddyfarniad grant blaenorol. Er enghraifft, ni all ymgeiswyr geisio cyllid pellach ar gyfer Cam 1 yn unig i ailadrodd neu wella astudiaeth ddichonoldeb na chafodd ei chwblhau i safon dderbyniol. Fodd bynnag, gellir ceisio cyllid i ddiweddarau neu adnewyddu astudiaeth ddichonoldeb bresennol os cafodd yr astudiaeth honno ei chwblhau i safon foddhaol ond bod angen ei diweddarau cyn y gall y prosiect symud yn ei flaen.

Safleoedd Lluosog

Gall ymgeiswyr wneud cais am gyllid ar gyfer sawl safle fel rhan o gais portffolio sengl. Lle ceisir cyllid ar gyfer sawl safle, rhaid i ymgeiswyr esbonio pam mae'r safleoedd yn cael eu datblygu gyda'i gilydd yn hytrach nag fel ceisiadau ar wahân. Dylai hyn gynnwys:

- sut mae'r safleoedd yn cyfrannu at set gyffredin o amcanion;
- sut y bydd trefniadau llywodraethu, cyflawni a rheoli risg yn gweithredu ar draws y safleoedd;
- sut y caiff cyllid ac adnoddau eu dyrannu ar draws y safleoedd; a
- pam fod y dull portffolio yn cynrychioli gwell gwerth am arian na bwrw ymlaen â'r safleoedd ar wahân.

Rhaid i bob safle sydd wedi'i gynnwys mewn cais fodloni gofynion cymhwysedd y cynllun yn annibynnol. Ni chaiff ymgeiswyr ddibynnu ar safleoedd cryfach o fewn portffolio i ddangos cymhwysedd, hyfywedd cyflawni, gwerth am arian, neu gydnawsedd strategol ar gyfer safleoedd gwannach. Gall GBE asesu safleoedd unigol ar wahân ac mae'n cadw'r hawl i wrthod cyllid ar gyfer cais os nad yw unrhyw safle yn bodloni gofynion y cynllun, hyd yn oed os yw safleoedd eraill sydd wedi'u cynnwys yn yr un cais yn gymwys i dderbyn cyllid.

Gall GBE drin ceisiadau cysylltiedig fel un cais os daw i'r casgliad y gellid bod wedi strwythuro prosiectau, neu elfennau o brosiect, mewn ffordd wahanol yn rhesymol.

Pa Fathau o Brosiectau y gellir eu Cefnogi?

Mae GBECF yn cefnogi prosiectau ynni glân sy'n eiddo i'r gymuned. Rhestrir isod y mathau o dechnoleg sy'n gymwys ym mhob cam o'r broses ariannu:

Math A - Camau 1 a 2 yn unig - Asedau Ynni Glân

- Treulio anaerobig (cynhyrchu trydan)
- Rhwydwaith gwres biogas
- Rhwydwaith gwres biomas
- Pymphiau gwres (*pan gânt eu cyfuno â thechnoleg gymwys arall yn y rhestr hon*)
- Rhwydweithiau gwres a gyflenwir gan bympiau gwres (e.e. *parthau gwres ar gyfer pentref, pan gânt eu cyfuno â thechnoleg gymwys arall yn y rhestr hon*)
- Ynni dŵr
- Solar ar y ddaear
- Solar ar doeau
- Solar thermol
- Ynni gwynt
- Storïo mewn batris (*pan gaiff ei gyfuno â thechnoleg gymwys arall yn y rhestr hon*)

Cam 3 yn unig – Asedau Cynhyrchu Ynni Glân

- Treulio anaerobig (cynhyrchu trydan)
- Ynni dŵr
- Solar ar y ddaear
- Solar ar doeau
- Ynni gwynt
- Storïo mewn batris (*pan gaiff ei gyfuno â thechnoleg gymwys arall yn y rhestr hon*)

Math B – Prosiectau Cyngor ac Effeithlonrwydd Ynni Glân (Cam 1 yn unig)

- Gwasanaethau cyngor ynni cymunedol
- Prynu swmp o ôl-osod ar gyfer mesurau effeithlonrwydd ynni neu dechnolegau ynni glân (er enghraifft inswleiddio, bympiau gwres neu baneli solar)

- Rhaglenni effeithlonrwydd ynni ar gyfer nifer o aelwydydd

Dim ond yn y camau cynnar y cefnogir prosiectau cyngor ac effeithlonrwydd ynni ac nid ydynt yn gymwys ar gyfer cyllid Cam 2 na Cham 3. Ni ellir defnyddio cyllid ar gyfer darparu gwasanaethau cynghori yn barhaus, costau gweithredu arferol, na gosod mesurau effeithlonrwydd ynni yn uniongyrchol. Lle mae cynigion yn canolbwyntio'n bennaf ar ddarparu ôl-osod ar raddfa fawr neu uwchraddio cartrefi, dylai ymgeiswyr edrych ar lwybrau cyllido amgen, megis cyllid Cynllun Cartrefi Cynnes.

Rhaid i ymgeiswyr am gyllid Math B nodi'r angen neu'r bwlch gwasanaeth y bwriedir i'r model arfaethedig fynd i'r afael ag ef. Dylai hyn gynnwys darpariaeth berthnasol bresennol, pam nad yw'r ddarpariaeth honno'n diwallu'r angen a nodwyd yn ddigonol, a sut mae'r gweithgaredd arfaethedig yn ychwanegol yn hytrach nag yn ddyblyg. Ni fydd GBE CF yn ariannu datblygu gwasanaeth sy'n sylweddol ddyblyg lle gall darparwr presennol ddiwallu'r angen a nodwyd i safon briodol ac mae ganddo ddigon o gapasiti i wneud hynny.

Cam 1 – Dichonoldeb

Beth yw pwrpas Cam 1?

Mae Cam 1 yn helpu cymunedau i brofi a yw syniad prosiect yn ymarferol cyn gwario llawer o amser neu arian.

Yr hyn sydd ei Angen arnoch cyn Gwneud Cais

Cyn gwneud cais i Gam 1, rhaid i chi:

- bod yn ymgeisydd cymwys (sefydliad cymunedol cymwys gyda chyfrif banc wedi'i wirio a dau lofnodwr ar y cyfrif);
- cael syniad clir am y prosiect a'r dechnoleg; a
- bod wedi nodi naill ai safle posibl neu restr fer gredadwy o safleoedd.

Faint o Gyllid sydd ar Gael?

- Yn ystod Cam 1, mae hyd at £40,000 ar gael fesul prosiect i ariannu camau dichonoldeb y prosiectau.
- Gall prosiectau Cam 1 sy'n wynebu heriau llif arian ofyn i hyd at 25% o'r grant gael ei dalu ar ôl cyflwyno tystiolaeth bod costau wedi'u hysgwyddo, ond heb eu talu eto.
- Dylai'r costau rydych chi'n eu hawlio gan GBE beidio â chynnwys TAW, oni bai na ellir adennill y TAW hwnnw. Gall TAW wneud gwahaniaeth mawr i gostau; felly, gwnewch yn siŵr eich bod yn deall a yw eich cyflenwyr yn codi TAW ai peidio yn eu dyfynbrisiau, ac a ydych chi'n gallu adennill y TAW hwnnw ai peidio.

Cam1 - Gwariant Cymwys

Categori Cost	Gwariant Cymwys	Amodau (yn ogystal â chostau sy'n rhesymol ac yn gymesur)
Gwasanaethau technegol, cyfreithiol a dichonoldeb	Astudiaethau dichonoldeb technegol, asesiadau safle, adnabod safleoedd ac asesu opsiynau, cyngor peirianeg lefel uchel, astudiaethau dichonoldeb grid, cyngor cynllunio ac amgylcheddol, cyngor cyfreithiol, modelu ariannol amlinellol, datblygu achosion busnes a chynghor caffael.	Rhaid i gostau fod yn gysylltiedig yn uniongyrchol ag asesu hyfywedd y prosiect neu ddatblygu'r prosiect tuag at gam diweddarach.
Gweithgaredd tir, cynllunio a chydysnio	Trafodaethau â pherchnogion tir, paratoi Penawdau Telerau, cyngor mynediad cynnar i dir, cwmpasu cynllunio a chydysnio cynnar, cyngor cynllunio cyn ymgeisio, gwiriadau cyfyngiadau amgylcheddol a chynghor proffesiynol cysylltiedig.	Rhaid i gostau ymwneud â safle a nodwyd neu restr fer o safleoedd a bod yn angenrheidiol i benderfynu a all y prosiect fynd yn ei flaen. Ni ddylid defnyddio cyllid ar gyfer gweithgaredd dyfalu ar draws nifer fawr o safleoedd heb flaenoriaeth.
Ymgysylltu â'r gymuned	Digwyddiadau, gweithdai, arolygon, gweithgaredd ymgynghori, deunyddiau cyfathrebu ac ymgysylltu â chymunedau lleol, rhanddeiliaid, perchnogion tir neu fuddiolwyr posibl.	Rhaid i weithgaredd gefnogi datblygiad prosiect, dichonoldeb, cefnogaeth leol, perchnogaeth gymunedol neu drefniadau budd cymunedol yn uniongyrchol.
Llywodraethu, perchnogaeth a strwythur y prosiect	Datblygu trefniadau llywodraethu, modelau perchnogaeth, trefniadau budd cymunedol, opsiynau perchnogaeth a rennir, Penawdau Telerau drafft, cyngor cyfansoddiadol, paratoi ar gyfer cynigion cyfranddaliadau cymunedol a dogfennaeth arall sydd ei hangen i ddatblygu strwythur y prosiect	Rhaid i gostau fod yn gysylltiedig yn uniongyrchol â datblygu'r prosiect a'i drefniadau perchnogaeth, rheolaeth neu fudd cymunedol. Ni ddylent ymwneud â datblygiad sefydliadol cyffredinol nad yw'n gysylltiedig â'r prosiect

Datblygiad ariannol a masnachol	Cynllunio busnes amlinellol, modelu ariannol, cyngor llwybr i'r farchnad, rhagdybiaethau refeniw, cynllunio cyllid cyfatebol, ymgysylltu â buddsoddwyr neu fenthycwyr, ac asesu incwm a chostau prosiect.	Rhaid i'r costau fod yn angenrheidiol er mwyn asesu hyfywedd y prosiect, ei fforddiadwyedd, gwerth am arian neu barodrwydd ar gyfer datblygu pellach.
Cefnogaeth rheoli prosiectau	Amser rheoli prosiect, cydlynu cynghorwyr, rheoli gweithgaredd dichonoldeb, datblygu cynlluniau prosiect, cofrestru risg, cyllidebau a dogfennaeth gyflawni. Mae hyn yn cynnwys costau staffio a achosir gan y sefydliad sy'n gwneud y cais. Mae costau rheoli prosiect wedi'u cyfyngu i 20% o gyfanswm yr hawliad.	Rhaid i'r costau fod yn gymesur â graddfa a chymhlethdod gweithgaredd Cam 1 ac yn uniongyrchol gysylltiedig â chyflawni'r prosiect a ariennir.
Gorbenion	Gellir cynnwys lefel resymol a chymesur o gostau uwchben lle gellir eu priodoli'n uniongyrchol i gyflawni prosiect.	

Cam 2 – Datblygu

Beth yw pwrpas Cam 2?

Mae Cam 2 yn cefnogi prosiectau sy'n ymarferol o safbwynt technegol ac yn barod i gael eu datblygu hyd at y cam FiD (penderfyniad buddsoddi terfynol). I wneud cais am Gam 2, rhaid i chi fod yn ymgeisydd cymwys ac wedi cwblhau astudiaeth ddichonoldeb gychwynnol cyn gwneud cais am gyllid Cam 2; bydd angen darparu tystiolaeth o hyn.

I wneud cais am Gam 2, rhaid bod gennych:

- Astudiaeth ddichonoldeb wedi'i chwblhau sy'n dangos bod y prosiect yn addas ar gyfer datblygu pellach;⁴
- Tystiolaeth o ymgysylltu â'r gymuned a sail ar gyfer cefnogaeth gymunedol;
- Cynnig clir ar sut y bydd y prosiect yn cael ei berchenogi, ei lywodraethu a'i gyflawni; a

⁴ Nid oes angen i hyn fod wedi'i ariannu drwy Gam 1 GBECF. Dylai'r dystiolaeth ymarferoldeb fod yn ddigon cyfredol a manwl i ddangos bod modd datblygu'r dechnoleg a'r safle arfaethedig ymhellach. Yn arferol, dylai ymdrin ag ymarferoldeb technegol, costau ac incwm bras, ystyriaethau ynghylch y safle neu'r tir, gofynion y grid lle bo hynny'n berthnasol, cyfyngiadau cynllunio ac amgylcheddol, prif risgiau, opsiynau perchnogaeth a'r llwybr arfaethedig at gyflawni'r prosiect. Gall GBE ofyn am asesiad wedi'i ddiweddarau os yw'r dystiolaeth yn sylweddol hen neu os yw amgylchiadau perthnasol wedi newid.

- Nodi'r prif weithgareddau datblygu sydd eu hangen cyn i'r prosiect gyrraedd y cam o fod yn barod i dderbyn buddsoddiad, megis cynllunio, cytundebau tir, cysylltu â'r grid, dylunio technegol neu ddatblygu ariannol.

Faint o gyllid sydd ar gael?

- Yn ystod Cam 2, mae hyd at £100,000 ar gael fesul prosiect i ariannu gweithgareddau datblygu hyd at y cam Penderfynu ar Fuddsoddi Terfynol (FiD).
- Rhaid bod yr holl arian grant ar gyfer Cam 2 wedi'i dalu a'i hawlio erbyn 31^{ain} Mawrth 2028.
- Dylai'r costau rydych chi'n eu hawlio gan GBE beidio â chynnwys TAW, oni bai nad yw'n bosibl adennill y TAW hwnnw. Gall TAW wneud gwahaniaeth mawr i gostau; felly, gwnewch yn siŵr eich bod yn deall a yw eich cyflenwyr yn codi TAW ai peidio yn eu dyfynbrisiau, ac a oes modd i chi adennill y TAW hwnnw ai peidio.

Cam 2 - Gwariant Cymwys

Categori costau	Gwariant Cymwys	Amodau (yn ogystal â chostau sy'n rhesymol ac yn gymesur)
Dylunio technegol a pheirianeg	Dylunio technegol manwl, asesiadau peirianeg, dylunio systemau, astudiaethau technegol, arolygon amgylcheddol, ymchwiliadau safle a gwaith technegol arall sy'n ofynnol i hyrwyddo datblygiad prosiectau.	Rhaid i gostau fod yn gysylltiedig yn uniongyrchol â datblygu'r prosiect arfaethedig tuag at fod yn barod i dderbyn buddsoddiad neu i'w gyflawni.
Cynllunio, trwyddedu a chael caniatâd	Ceisiadau cynllunio, arolygon ategol, asesiadau amgylcheddol, astudiaethau ecolegol, asesiadau trafndiaeth, ymgynghoriaeth gynllunio a gweithgaredd caniatâd arall.	Rhaid i gostau fod yn gysylltiedig yn uniongyrchol â sicrhau'r caniatâd sydd ei angen i gyflawni'r prosiect.
Datblygu cysylltiad â'r grid	Ceisiadau cysylltiad grid, astudiaethau cysylltiad manwl, modelu rhwydwaith, cyngor technegol, trafodaethau gyda gweithredwyr rhwydwaith a chefnogaeth broffesiynol gysylltiedig.	Rhaid i gostau ymwneud yn uniongyrchol â symud cysylltiad â'r grid yn ei flaen neu ei sicrhau ar gyfer y prosiect.
Trefniadau tir ac eiddo	Cytundebau opsiwn, prydlesi, hawddfreintiau, cytundebau tir uwch, cefnogaeth gyfreithiol, cyngor gwerthuso a chostau proffesiynol cysylltiedig y tu hwnt i benawdau telerau cychwynnol.	Rhaid i gostau fod yn angenrheidiol i sicrhau'r hawliau sydd eu hangen i gyflawni'r prosiect. Nid yw costau caffael tir yn gymwys.

Llywodraethu, perchnogaeth a strwythurau cyfreithiol	Datblygu llywodraethu, cyngor cyfreithiol, strwythurau perchnogaeth, trefniadau budd cymunedol, cytundebau cyfranddalwyr, cyngor cyfansoddiadol, trefniadau perchnogaeth a rennir a dogfennaeth gyfreithiol gysylltiedig	Rhaid i gostau gefnogi datblygiad trefniadau perchnogaeth, rheolaeth a buddion y prosiect yn uniongyrchol
Datblygu ariannol, masnachol ac o ran buddsoddi	Modelu ariannol manwl, datblygu achosion busnes, diwydrwydd dyladwy, cyngor llwybr i'r farchnad, gweithgaredd parodrwydd buddsoddi, ymgysylltu â benthycwyr, a pharatoi cynigion cyfranddaliadau cymunedol neu fecanweithiau buddsoddi eraill.	Rhaid i gostau fod yn gysylltiedig yn uniongyrchol â sicrhau cyllid ar gyfer y prosiect, dangos ei hyfywedd neu baratoi'r prosiect ar gyfer buddsoddi a chyflawni.
Ymgysylltu â'r gymuned	Ymgynghori â'r gymuned, ymgysylltu â rhanddeiliaid, digwyddiadau cyhoeddus, deunyddiau cyfathrebu a datblygu trefniadau budd cymunedol.	Rhaid i'r gweithgaredd gefnogi datblygu'r prosiect, perchnogaeth gymunedol, cyflawni'r prosiect neu drefniadau budd i'r gymuned yn uniongyrchol.
Rheoli prosiectau a chymorth cyflawni	Rheoli prosiectau, rheoli rhaglenni, cydlynu cynghorwyr, rheoli gwaith datblygu, rheoli risg, adrodd ar brosiectau, ac amser staff a dreulir gan y sefydliad ymgeisiol sy'n ymwneud â gweithgareddau Cam 2 cymwys.	Rhaid i gostau fod yn gymesur â maint a chymhlethdod y prosiect, yn rhai y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i gyflawni Cam 2, yn seiliedig ar gostau cyflog gwirioneddol (gan gynnwys costau ychwanegol rhesymol lle bo'n berthnasol), ac ni ddylent gynnwys unrhyw elfen o elw.
Gorbenion	Lefel resymol a chymesur o gostau gorbenion y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i gyflawni prosiect Cam 2.	

Cam 3 – Cyllid Cyfalaf

Beth yw pwrpas Cam 3?

Mae Cam 3 yn darparu cyllid cyfalaf ar gyfer nifer fwy cyfyngedig o brosiectau sydd wedi'u datblygu'n llawn ac yn barod i'w hadeiladu.

I wneud cais am Gam 3, rhaid i chi fod yn sefydliad cymwys a rhaid i'ch prosiect gael:

- gwaith datblygu wedi'i gwblhau, gan gynnwys dichonoldeb technegol ac achos ariannol a model busnes cyflawn;
- caniatâd cynllunio yn ei le, neu a fydd yn ei le cyn cynnig unrhyw gytundeb cyllid grant;
- cysylltiad â'r grid wedi'i sicrhau;
- cytundebau mynediad i dir wedi'u llofnodi;
- cynllun adeiladu a chyflawni clir; a
- chadarnhad o ble y daw cyllid gan drydydd parti.

Rhaid i ymgeiswyr ddarparu model ariannol sy'n ddigon manwl i alluogi GBE i asesu hyfywedd ariannol y prosiect, y gofyniad am gyllid a'r bwlch ariannu sy'n weddill. Dylai'r model ariannol, lle bo'n berthnasol, gynnwys costau cyfalaf, costau gweithredu a chynnal a chadw, costau amnewid, rhagdybiaethau ynghylch cynhyrchu, rhagdybiaethau refeniw, rhagdybiaethau ariannu, dyled, ecwiti, buddsoddiad cymunedol, trethiant, TAW, cronfeydd wrth gefn ac enillion arfaethedig. Dylai'r model ddangos yn glir fwlch ariannu'r prosiect a'r ffactorau sensitifrwydd allweddol.

Faint o gyllid sydd ar gael?

- Hyd at £3 miliwn fesul prosiect (dim mwy na 50% o gyfanswm costau cyfalaf y prosiect).
- Rhaid talu a hawlio'r holl gyllid grant Cam 3 erbyn 31^{ain} Mawrth 2028.
- Dylai'r costau rydych chi'n eu hawlio gan GBE beidio â chynnwys TAW, oni bai na ellir ei adennill. Gall TAW wneud gwahaniaeth mawr i'r costau, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn deall a yw eich cyflenwyr yn codi TAW ai peidio yn eu dyfynbrisiau, ac a allwch chi adennill y TAW hwnnw ai peidio.

Y cyllid sydd ar gael yw'r uchafswm y gellir ei ddyfarnu fesul prosiect, ac rydym yn disgwyl i'r rhan fwyaf o ddyfarniadau fod yn is na hyn. Rhaid i brosiectau sicrhau cyllid arall (fel cyfranddaliadau cymunedol, benthyciadau, neu fuddsoddiad gan bartneriaid), a rhaid darparu tystiolaeth o hyn fel rhan o'ch cais.

Rhaid i geisiadau Cam 3 fod yn gysylltiedig ar lefel dosbarthu, a gallant fod yn destun gwiriadau diwydrwydd dyladwy ychwanegol. Gall hyn gynnwys trafodaethau gydag aelodau o dîm lleol GBE a/neu dîm CGL er mwyn deall y prosiect arfaethedig yn well, cadarnhau gwybodaeth a ddarparwyd yn y cais, a chwblhau prosesau safonol sicrwydd grant a diwydrwydd dyladwy. Ni fydd y trafodaethau hyn yn rhan o'r broses asesu na'r broses sgorio. Eu pwrpas yw darparu sicrwydd y gellir gwneud unrhyw ddyfarniad arfaethedig yn briodol ac yn unol â gofynion llywodraethu a chyllido GBE.

Cam 3 - Gwariant Cymwys

Categori Cost	Gwariant Cymwys	Amodau (yn ogystal â chostau
---------------	-----------------	------------------------------

		sy'n rhesymol ac yn gymesur)
Offer cyfalaf, adeiladu a gosod	Prynu, adeiladu, gosod a chomisiynu asedau cynhyrchu ynni adnewyddadwy, asedau storio, ac isadeiledd ynni cymunedol cymwys arall. Gall hyn gynnwys offer, deunyddiau, costau contractwyr, gwaith peirianeg sifil, gwaith trydanol a chostau gosod.	Rhaid i gostau fod yn uniongyrchol gysylltiedig â chyflawni'r prosiect cymeradwy a chreu asedau gweithredol y prosiect a chynrychioli gwerth am arian.
Seilwaith cysylltiedig	Isadeiledd sydd ei angen i adeiladu, cysylltu a gweithredu'r prosiect, megis gwaith cysylltu â'r grid, ceblau, is-orsafoedd, strwythurau mowntio, sylfeini, mesuryddion, offer monitro, systemau rheoli ac isadeiledd ategol arall	Rhaid i gostau fod yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni a gweithredu'r prosiect cymeradwy a chynrychioli gwerth am arian

Ni ellir defnyddio cyllid Cam 3 ar gyfer:

- costau gweithredol parhaus;
- costau sydd eisoes wedi'u hysgwyddo cyn dyfarnu'r grant; neu
- costau datblygu, astudiaethau dichonoldeb, datblygu achos busnes, rheoli prosiectau, costau staff, gwasanaethau cyfreithiol, cyngor ariannol, gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned neu gostau cyffredinol y sefydliad.

Gwybodaeth Ychwanegol

Ymrwymadau a wnaed cyn Dyfarnu'r Contract

Ni chaiff costau a ysgwyddwyd, ar gyfer unrhyw gam o'r cyllid, cyn y dyddiad gwariant cymwys eu hariannu. Rhaid i ymgeiswyr hefyd ddatgelu unrhyw gontract, archeb brynu neu ymrwymiad arall a wnaed cyn dyfarnu'r grant.

Os yw ymgeisydd wedi ymrwymo'n ddiamod i ysgwyddo cost waeth beth fo canlyniad ei gais GBECF, bydd hyn fel arfer yn dangos nad y grant sy'n achosi'r gwariant hwnnw ac ni fydd y gost yn gymwys.

Nid yw gwaith rhagarweiniol rhesymol a wneir i baratoi cais o reidrwydd yn dangos y byddai'r prosiect cyfan yn mynd yn ei flaen heb gymorth, ond ni chaiff costau paratoi'r cais eu had-dalu.

Dyfarniadau Cymhorthdal

Rhaid i ymgeiswyr ddatgan yr holl gyllid cyhoeddus a dderbyniwyd, a wnaed cais amdano, neu a ddisgwylir ei dderbyn mewn perthynas â'r prosiect. Ni ddylid ariannu'r un costau cymwys fwy nag unwaith o ffynonellau cyhoeddus. Bwriad GBECF yw ategu, yn hytrach na dyblygu, ffynonellau cymorth eraill. Bydd gwybodaeth a ddarperir yn cael ei hystyried fel rhan o asesiadau bylchau ariannu, dyblygu, cronni a rheoli cymorthdaliadau. Rhaid i ymgeiswyr ddangos nad yw'r cyfuniad o ffynonellau cyllid cyhoeddus yn arwain at orddigolledu neu fel arall yn torri gofynion rheoli cymorthdaliadau cymwys.

Bydd pob dyfarniad cyllid yn ddarostyngedig i gyfundrefn rheoli cymorthdaliadau'r DU a nodir yn bennaf yn Neddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022, ond gall cyfundrefnau eraill, gan gynnwys, mewn rhai amgylchiadau cyfyngedig, rheolau Cymorth Gwladwriaethol yr Undeb Ewropeaidd a rhwymedigaethau rhyngwladol ehangach y DU, arwain at ofynion ychwanegol. Bydd GBE yn gwrthod unrhyw gais lle mae'n ystyried na ellir rhoi grant yn unol â rheolau rheoli cymorthdaliadau perthnasol.

Yn unol â gofynion statudol, rhaid cyhoeddi unrhyw ddyfarniad cymorthdaliadau sy'n fwy na £100,000 ar y Gronfa Ddata Tryloywder Cymorthdaliadau o fewn tri mis i lofnodi'r cytundeb grant.

Fframwaith Windsor

Bydd ceisiadau sydd â chysylltiad perthnasol â Gogledd Iwerddon yn cael eu sgrinio er mwyn i GBE allu pennu'r drefn rheoli cymorthdaliadau berthnasol. Bydd angen i ymgeiswyr ddarparu gwybodaeth ffeithiol am yr ymgeisydd, y prosiect, y gweithgaredd economaidd, y trefniadau masnachu, cynhyrchu a gwerthu nwyddau neu drydan, a'r marchnadoedd perthnasol.

Dylai ymgeiswyr ystyried gweithgareddau eu busnes yn eu cyfanrwydd wrth ateb. Bydd angen i ymgeiswyr hefyd gadarnhau gwybodaeth berthnasol am gyllid cyhoeddus blaenorol a darparu gwybodaeth ategol fel rhan o'r broses ymgeisio.

Pan nad yw Erthygl 10 o Fframwaith Windsor yn gymwys ac mae Deddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022 yn gymwys, gellir dyfarnu cymorth o dan GBECF os bodlonir holl ofynion y cynllun.

Pan fo Erthygl 10 yn gymwys, dim ond os yw GBE wedi nodi a dilysu sail gyfreithiol berthnasol ar gyfer cymorth gwladwriaethol cyn i'r cymorth gael ei roi y gwneir dyfarniad. Ni ellir gwarantu bod llwybr cyfreithiol ar gael; bydd hyn yn dibynnu ar y buddiolwr, y gweithgaredd a ariennir, y costau cymwys, y swm, y dechnoleg ac unrhyw gymorth arall a dderbyniwyd. Yn dibynnu ar yr amgylchiadau, gall llwybrau cyfreithiol gynnwys cymorth *de minimis* neu ddarpariaeth berthnasol o'r Rheoliad Eithrio Bloc Cyffredinol (GBER). GBER yw rheoliad cymorth gwladwriaethol yr Undeb Ewropeaidd sy'n caniatáu rhoi rhai cymorthdaliadau heb hysbysu'r Comisiwn Ewropeaidd ymlaen llaw, ar yr amod bod y

cymhorthdal yn bodloni amodau penodol. I gael rhagor o wybodaeth am GBER, gan gynnwys yr amodau hynny, gweler [yma](#).

Bydd grantiau Cam 1 a Cham 2 sy'n defnyddio Fframwaith Windsor yn cael eu rhoi ar sail Cymorth Gwladwriaethol *de minimis*, sy'n golygu y bydd angen digon o le *de minimis* ar yr ymgeisydd i dderbyn y cymhorthdal. Ar gyfer cyllid Cam 3, dim ond rhan o gyfanswm costau cymwys y prosiect y gall cyllid Cymorth Gwladwriaethol ei gwmpasu. Rhaid i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth o sut y bydd y costau sy'n weddill yn cael eu hariannu, er enghraifft drwy gynigion cyfranddaliadau cymunedol, benthyca masnachol, buddsoddiad partneriaid, cronfeydd wrth gefn sefydliadol, neu ffynonellau cyllid eraill nad ydynt yn GBE. Lle mae ymgeiswyr yn bwriadu defnyddio cyllid gan gorff cyhoeddus, rhaid iddynt nodi'r ffynhonnell yn glir a dangos ei bod yn gydnaws â gofynion rheoli cymorthdaliadau cymwys.

Cymorthdaliadau o Ddiddordeb Arbennig

Ni fydd GBECF yn cael ei ddefnyddio i ddyfarnu cymorthdaliadau sy'n gyfystyr â 'Chymhorthdaliadau o Ddiddordeb Arbennig' o dan gyfundrefn rheoli cymorthdaliadau'r DU. Cyn dyfarnu, bydd GBE yn ystyried y grant arfaethedig ynghyd ag unrhyw gymorthdaliadau cysylltiedig yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau statudol sydd mewn grym ar yr adeg berthnasol.

Rhaid i ymgeiswyr ddarparu gwybodaeth am gymorthdaliadau perthnasol a dderbyniwyd gan y fenter ac unrhyw fentrau o dan reolaeth gyffredin. Lle byddai'r dyfarniad arfaethedig yn achosi i'r trothwy Cymhorthdal o Ddiddordeb Arbennig perthnasol gael ei gyrraedd, ni fydd y dyfarniad yn cael ei wneud o dan GBECF.

Partïon Cysylltiedig a Buddiolwyr Anuniongyrchol

Rhaid i ymgeiswyr nodi'r holl sefydliadau a allai elwa'n economaidd, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, o'r prosiect a ariennir gan y grant. Gall hyn gynnwys y derbynnydd grant, perchennog yr ased, cwmni'r prosiect, datblygwr masnachol, buddsoddwr, perchennog tir, cyflenwr neu contractwr cysylltiedig, ac unrhyw barti sy'n derbyn hawliau prosiect, eiddo deallusol neu wasanaethau ar delerau ffafriol.

Rhaid i ymgeiswyr ddatgelu:

- trefniadau perchnogaeth a rheolaeth;
- llif cyllid grant a chyllid prosiect arall;
- taliadau cytundebol;
- hawliau i incwm ac asedau'r prosiect;
- enillion ariannu;
- perthnasoedd â phartïon cysylltiedig; a

- unrhyw fantais economaidd nad yw'n arian parod.

Yn arferol, ni fydd cyflenwr sy'n cael ei dalu pris marchnad rhesymol yn cael ei ystyried fel un sy'n derbyn y cymhorthdal oherwydd ei fod yn cyflenwi'r prosiect. Fodd bynnag, bydd GBE yn ystyried a yw parti masnachol neu barti cysylltiedig yn cael mantais sylweddol ar delerau sy'n fwy ffafriol na thelerau'r farchnad, ac yn penderfynu peidio â darparu grant ar y sail hon.

Ychwanegoldeb ac Angen am Ariannu

Dim ond lle mae'r ymgeisydd yn dangos y bydd y grant yn dod â newid sylweddol na fyddai'n digwydd heb gefnogaeth GBECF y bydd cais yn gymwys i gael cyllid. Rhaid i ymgeiswyr egluro beth fyddai fwyaf tebygol o ddigwydd heb y grant, gan gynnwys a fyddai'r gweithgaredd neu'r prosiect arfaethedig yn mynd rhagddo ar yr un pryd, graddfa, cwrpas a strwythur perchnogaeth.

Ni fydd cais yn gymwys oherwydd byddai cyllid grant yn gwneud y gweithgaredd yn rhatach, yn cynnal lefel cronfeydd wrth gefn a ffefrir gan yr ymgeisydd, yn cynyddu gwared y prosiect neu'n disodli cyllid sydd ar gael yn rhesymol ar delerau derbyniol.

Mae GBECF yn cefnogi gweithgaredd newydd a chynyddrannol y gellir ei briodoli'n uniongyrchol i'r prosiect a gymeradwywyd. Ni fydd cyllid yn cael ei ddarparu ar gyfer gweithrediadau cyffredin, gweithgaredd busnes fel arfer, swyddogaethau sefydliadol arferol na chostau sefydliadol cyffredinol a fyddai'n cael eu hysgwyddo waeth beth fo'r prosiect. Dim ond lle caniateir ar gyfer y cam cyllido perthnasol, yn uniongyrchol briodol i'r gweithgaredd a ariennir, yn angenrheidiol i gyflawni'r allbynnau a gymeradwywyd ac wedi'u cefnogi gan dystiolaeth briodol y mae costau staff, costau rheoli prosiectau mewnol a gorbennion yn gymwys.

Gall cyllid Cam 1 a Cham 2 dalu hyd at 100% o gostau prosiect cymwys, yn amodol ar y cap cyllido perthnasol. Dyma gyfradd ymyrraeth uchaf ac nid hawl i gyllid llawn. Wrth benderfynu ar y lefel briodol o gyllid, bydd GBE yn ystyried yr adnoddau sydd ar gael yn rhesymol i'r ymgeisydd i gefnogi'r gweithgaredd arfaethedig.

Sut y pennir swm y grant ar gyfer Cam 3

I benderfynu ar swm y grant Cam 3, bydd GBE yn ystyried:

- costau cyfalaf cymwys wedi'u dilysu;
- adnoddau sydd ar gael yn rhesymol gan yr ymgeisydd;
- cyfranddaliadau cymunedol neu fuddsoddiad cymunedol arall y gellir ei godi'n rhesymol;
- dyled fasnachol y gall y prosiect ei chynnal yn rhesymol;
- cyfalaf ecwiti, neu gyllid gan ddatblygwr neu bartner, sydd ar gael yn rhesymol;
- cyllid cyhoeddus arall;

- refeniw a chostau disgwylidig y prosiect ynghyd â chronfeydd wrth gefn rhesymol; ac
- effaith strwythurau ariannu amgen ar berchnogaeth gymunedol sylweddol a budd cymunedol.

Dim ond pan fydd bwlch ariannu gweddilliol yn parhau ar ôl ystyried y ffynonellau hyn y bydd cais am grant Cam 3 yn cael ei ystyried. Bydd y grant yn gyfyngedig i'r swm lleiaf sydd ei angen i alluogi'r newid a nodwyd yn y penderfyniad buddsoddi. Nid yw presenoldeb cyllid cyfatebol, ynddo'i hun, yn dangos bod angen cyllid GBECF. Rhaid i ymgeiswyr ddangos bod bwlch ariannu gweddilliol yn parhau a bod angen cyllid GBECF i sicrhau'r newid a nodwyd yn y penderfyniad buddsoddi. Ni fydd prosiect yn gymwys ar gyfer cyllid Cam 3 os yw'r dystiolaeth yn dangos y gellid ariannu costau llawn y prosiect yn rhesymol heb gymorth GBECF, tra'n cyflawni'r un prosiect yn y bôn o ran amseriad, graddfa, a lefel perchnogaeth a budd cymunedol.

Rhaid i ymgeiswyr ddatgelu unrhyw ddiddordeb masnachol sylweddol, presennol neu flaenorol, yn y prosiect, y safle, yr ased neu'r cyfle datblygu. Rhaid i ymgeiswyr egluro statws y diddordeb hwnnw, pa gyllid neu gymorth sydd wedi'i gynnig, a pham mae angen cyllid GBECF o hyd. Bydd GBE yn ystyried y wybodaeth hon wrth asesu ychwanegoldeb, y bwlch ariannu, ac a allai cyllid preifat sydd ar gael yn rhesymol alluogi'r prosiect i symud yn ei flaen heb gymorth GBECF.

Mae'r terfyn cyllid uchaf yn nenfwd, nid yn ddyfarniad safonol. Rhaid i ymgeiswyr ofyn am y swm lleiaf sydd ei angen i alluogi'r gweithgaredd neu'r prosiect arfaethedig i symud yn ei flaen yn y modd a ddisgrifir yn eu cais. Y swm a ddyfernir fydd yr isaf o:

- y swm y gofynnwyd amdano;
- y terfyn uchaf perthnasol ar gyfer y cam;
- y costau cymwys rhesymol ar gyfer y gweithgaredd cymeradwy;
- y gofyniad am gyllid gweddilliol sydd wedi'i brofi; a
- y swm lleiaf sydd ei angen i sicrhau'r newid sylweddol a nodwyd yn achos ymgeisydd ynghylch ychwanegoldeb.

Gall GBE gynnig swm is os yw'r dystiolaeth yn dangos y byddai dyfarniad is yn ddigonol. Ni fydd GBE yn cynnig swm llai os byddai hynny'n golygu na ellid cyflawni'r prosiect cymeradwy neu'n atal cyrraedd y canlyniad a nodwyd.

Hyfywedd ariannol

Rhaid i ymgeiswyr allu dangos bod ganddynt drefniadau rheoli ariannol priodol ar waith a'u bod yn hyfyw yn ariannol. Nid cynllun achub nac ailstrwythuro yw GBECF ac ni fydd cyllid yn cael ei ddarparu lle byddai'r dyfarniad arfaethedig yn gyfystyr â chymorth achub neu ailstrwythuro gwaharddedig.

Gall GBE ofyn am wybodaeth ychwanegol ynghylch sefyllfa ariannol ymgeisydd, gan gynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud ag achosion ansolfedd, trallod ariannol, materion busnes parhaus neu weithgaredd ailstrwythuro, lle bo'n berthnasol i asesu'r cais.

Ni ddylid defnyddio cyllid GBECF chwaith i ariannu dirwyon, cosbau, costau adfer, rhwymedigaethau amgylcheddol neu rwymedigaethau cyfreithiol eraill y mae'n ofynnol i'r ymgeisydd, buddiolwr neu barti cyfrifol arall eu bodloni eisoes o dan y gyfraith berthnasol.

Cyrchu Cyfrifol

Fel cwmni ynni sy'n eiddo cyhoeddus gyda phwrrpas, rydym yn gwybod bod cyflawni ein cenhadaeth yn dibynnu nid yn unig ar yr hyn yr ydym ni a'n partneriaid yn ei gyflawni, ond ar sut mae'r canlyniadau hynny'n cael eu cyflawni. Rydym yn gweld ymddygiad busnes cyfrifol, gan gynnwys hawliau dynol a diwydrwydd dyladwy amgylcheddol, ac ystyried gwerth cymdeithasol ac amgylcheddol, fel rhan annatod o effaith: mae'n dylanwadu ar a yw defnyddio ynni glân yn cefnogi swyddi da mewn gwirionedd, a yw cadwyni cyflenwi yn wydn ac yn foesegol, ac a yw manteision y trawsnewid ynni yn cyrraedd y cymunedau a'r lleoedd sydd eu hangen fwyaf, gan gynnwys parch at hawliau dynol drwy gydol ein gweithgareddau a'n partneriaethau.

Gwerth cymdeithasol – gwaith teg, sgiliau a chymunedau

Mae hyrwyddo gwerth cymdeithasol yn hanfodol i GBE. Rydym yn annog prosiectau i gefnogi swyddi o ansawdd uchel a gweithlu medrus, gan gynnwys trwy gefnogi lleoliadau lefel mynediad, rhaglenni cyflogadwyedd a chyfleoedd eraill sy'n gymesur â maint a rôl y sefydliad sy'n ymgeisio. Dylai hyn hefyd ystyried ffactorau sy'n seiliedig ar le, a gweithio ar y cyd â darparwyr a phartneriaethau sgiliau ac addysg rhanbarthol a lleol. Rydym hefyd yn annog gwaith o ansawdd uchel, diogel a theg, gydag amodau gweddus, cyflog teg a chysylltiadau diwydiannol adeiladol, ochr yn ochr ag ymgysylltu cymunedol ystyrlon sy'n dangos sut mae lleisiau lleol wedi cael eu clywed, eu hadlewyrchu yn nyluniad y prosiect a'u cefnogi trwy gynlluniau ar gyfer ymgysylltu parhaus a budd cymunedol.

Hawliau Dynol a Chadwyni Cyflenwi Moesegol

Mae GBE wedi ymrwymo i gadwyni cyflenwi moesegol ac atal camdriniaethau hawliau dynol, gan gynnwys caethwasiaeth fodern, llafur gorfodol, a masnachu pobl. Mae gennym uchelgeisiau i ddod yn arweinydd yn y sector mewn cadwyni cyflenwi moesegol, ac rydym yn ymgorffori safonau moesegol ar draws GBE, ar lefelau'r bwrdd a gweithredol, a thrwy gyflawni'r Cynllun Pŵer Lleol.

Fodd bynnag, mae'r technolegau yr ydym yn dibynnu arnynt – fel solar a batris – wedi'u hymgorffori mewn systemau byd-eang lle nad yw olrhain perffaith a chyrchu dim risg yn bodoli eto. Mae prosiectau ar raddfa fach yn wynebu anfantais benodol: maent yn agored i'r un risgiau cadwyn gyflenwi caethwasiaeth fodern â phrosiectau mwy ond maent yn

llawer llai abl i'w lliniaru. Fel arfer, nid oes gan brynwyr llai y grym i ddylanwadu ar gyflenwyr a'r gallu i gynnal diwydrwydd dyladwy sy'n ddwys o ran adnoddau neu sicrhau tryloywder dwfn yn y gadwyn gyflenwi. Mae GBE yn cydnabod yr heriau hyn ac wedi ymrwymo i helpu prynwyr llai i fynd i'r afael â nhw mewn ffordd ymarferol a chymesur.

Cyrchu sy'n Gynaliadwy yn Amgylcheddol

Mae GBE yn annog prosiectau i fabwysiadu dull ymarferol a chymesur o gyrchu a datblygu sy'n gynaliadwy yn amgylcheddol, gan gynnwys ystyried cyfleoedd i leihau'r defnydd o ynni ac allyriadau carbon ar draws eu gweithrediadau a'u cadwyni cyflenwi, cynyddu'r defnydd o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu lle bo'n briodol, a lleihau effeithiau amgylcheddol ehangach.

Amodau a Phecyn Cymorth ar gyfer Cyrchu Cyfrifol

Bydd GBE yn darparu pecyn o gefnogaeth codi ymwybyddiaeth a meithrin gallu. Bydd hyn yn cynnwys gweminarau a chanllawiau ysgrifenedig a gynlluniwyd i godi ymwybyddiaeth o gadwyni cyflenwi moesegol a chynaliadwy ac arferion busnes cyfrifol.

Disgwylir i ymgeiswyr llwyddiannus ymgysylltu â'r gefnogaeth hon ac ystyried sut y gellid cymhwyso'r dysgu i'w prosiect a'u gweithgareddau yn y dyfodol, mewn ffordd sy'n gymesur â'u rôl, eu gallu a'u cyd-destun lleol.

Mae GBE hefyd wedi ymgorffori amodau yn Nhelerau ac Amodau'r Gronfa i hyrwyddo cyrchu cyfrifol ar draws prosiectau. Mae'r amodau hyn yn gymesur ac yn bragmatig, i adlewyrchu'r heriau penodol y mae prosiectau ar raddfa fach yn eu hwynebu. Yng nghydd-destun prosiectau solar, er enghraifft, bydd angen i ymgeiswyr ddangos bod eu cyflenwr(wyr) dewisol yn defnyddio gweithgynhyrchwyr sy'n aelodau o'r Fenter Stiwardiaeth Solar (SSI) neu, yn darparu lefelau cyfatebol o sicrwydd ESG.

Nid yw'r amodau hyn yn disodli rhwymedigaethau cyfreithiol neu reoleiddiol presennol. Mae GBE yn disgwyl i bob ymgeisydd gydymffurfio â'r holl gyfreithiau perthnasol a chyda safonau gofynnol rhyngwladol cydnabyddedig ar gyfer lles gweithwyr ac amodau cyflogaeth, gan gynnwys y rhai a sefydlwyd gan y Sefydliad Llafur Rhyngwladol (ILO), ac i weithredu yn unol ag Egwyddorion Arweiniol y Cenhedloedd Unedig ar Fusnes a Hawliau Dynol.

Bydd cydymffurfio â'r amodau hyn yn ofyniad ar gyfer derbyn cyllid o dan y Cynllun. Lle mae tystiolaeth o arferion llafur anfoesegol o fewn gweithrediadau neu gadwyni cyflenwi ymgeisydd, bydd GBE yn cymryd camau priodol. Yn dibynnu ar yr amgylchiadau, gallai hyn gynnwys ei gwneud yn ofynnol i faterion a nodwyd gael eu datrys, atal cyllid, neu, lle bo angen, terfynu cytundebau.

Bydd ffurflen gais y Gronfa hefyd yn cynnwys cwestiynau ar gaffael cyfrifol. Yn benodol, bydd ymgeiswyr yn gallu darparu naratif ar eu strategaethau caffael cyfrifol, gwerth

cymdeithasol ac amgylcheddol. Ar gyfer camau cynharach y Gronfa, gall ymgeiswyr ddarparu strategaethau arfaethedig neu strategaethau sy'n datblygu. Erbyn Cam 3, disgwylir i ymgeiswyr ddarparu safbwynt mwy cadarn. Ni fydd y cwestiynau hyn yn cael eu hasesu. Yn lle hynny, byddant yn helpu GBE i ddeall lefel aeddfedrwydd a phrofiad ymgeiswyr yn y maes hwn ac yn llywio dyluniad cefnogaeth adeiladu gallu.

Ystyriaethau Amgylcheddol

Rhaid i brosiectau cynhyrchu gwres a rhwydwaith gwres ddangos bod disgwyl i'r prosiect arfaethedig leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o'i gymharu â thanwydd ffosil credadwy neu danwydd cymharol perthnasol arall. Rhaid i ymgeiswyr nodi'r ffynhonnell ynni neu danwydd arfaethedig, y tanwydd cymharol perthnasol a'r dystiolaeth neu'r dybiaethau sy'n cefnogi'r gostyngiad honedig.

Dim ond pan gaiff ei gyfuno â thechnoleg ynni glân gymwys arall ac yn ffurfio rhan annatod o'r prosiect hwnnw y mae storio batris yn gymwys. Rhaid i ymgeiswyr esbonio:

- sut a phryd y bydd y system storio yn gwefru ac yn rhyddhau ynni;
- sut mae'n cefnogi'r broses gynhyrchu ynni glân gysylltiedig;
- unrhyw fudd disgwylidig o ran hyblygrwydd, y rhwydwaith neu'r system ynni leol; a
- sail unrhyw fudd amgylcheddol a hawlir.

Ni chaiff gosod capasiti storio ei ystyried yn dystiolaeth o fudd amgylcheddol.

Monitro, Adrodd a Dysgu

Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn ymrwmo i Gytundeb Cyllido Grant gyda chyflawniadau ac amodau wedi'u diffinio. Bydd GBE Local (trwy ei bartner cyflawni, CGL, sy'n rhan o'r Adran Diogelwch Ynni a Net Sero) yn monitro cynnydd yn bennaf trwy adolygu'r cyflawniadau hyn. Gallai enghreifftiau o gyflawniadau gynnwys adroddiad astudiaeth ddichonoldeb, cytundebau partneriaeth, tystiolaeth o ymgysylltiad cymunedol, ac ati, yn dibynnu ar y cam. Rhaid i daliad hawliadau fod ynghyd â phrawf o gwblhau cyflawniadau a thystiolaeth o dalu costau prosiect. Os yw prosiect yn methu â chyflawni neu'n gwro'n sylweddol, mae GBE yn cadw'r hawl i atal rhagor o arian, terfynu'r Cytundeb Cyllido Grant a/neu adennill cyllid, yn unol ag amodau grant safonol.

Disgwylir i bob derbynnydd grant gymryd rhan mewn rhannu gwybodaeth a gwerthuso. Gall dysgu ar y cyd gynnwys darparu astudiaeth achos fer am eich prosiect a'ch canlyniadau neu ymuno â sesiynau dysgu gan gymheiriaid lle rydych chi'n rhannu profiad gyda phrosiectau eraill. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod manteision y grant yn ymestyn y tu hwnt i brosiectau unigol.

Rhaid i dderbynwyr grantiau ddarparu diweddariadau cynnydd rheolaidd, ac adroddiadau prosiect terfynol wedi'u halinio â'r allbynnau y cytunwyd arnynt.

Mae cyflawniadau nodweddiadol ar gyfer pob cam yn cynnwys:

- Cam 1: astudiaeth dichonoldeb neu gyfatebol,
- Cam 2: allbynnau datblygu (e.e. achos busnes, cynnydd cynllunio, cytundebau cyfreithiol)
- Cam 3: tystiolaeth o gyflawni a chynnydd adeiladu.

Bydd y gwaith monitro yn canolbwyntio ar allbynnau, gyda gofynion adrodd cymesur. Gall fod yn ofynnol i dderbynwyr hefyd ddarparu data dilynol am hyd at 5 mlynedd ar ôl y gweithgaredd a ariennir gan y grant, er mwyn cefnogi gwerthusiad o ganlyniadau cyflawni'r prosiect, y capasiti ynni adnewyddadwy a alluogwyd, a'r buddion cymunedol a gyflawnwyd.

Bydd gwaith monitro GBE hefyd yn olrhain dangosyddion perfformiad allweddol er mwyn gwerthuso effaith gyffredinol y rhaglen, er enghraifft:

- nifer y prosiectau a gefnogwyd,
- gallu cynhyrchu ynni adnewyddadwy a osodwyd,
- gwerth y Cronfeydd Budd Cymunedol a ddarparwyd.

Cymorth ar Gael a Manylion Cyswllt

Mae pum Canolfan Sero Net Leol ar draws Lloegr sy'n darparu cymorth a chynghor am ddim i brosiectau ynni cymunedol.

- [Gogledd-ddwyrain a Swydd Efrog](#).
- [Gogledd-orllewin](#).
- [Canolbarth Lloegr](#).
- [De-orllewin](#).
- [De-ddwyrain Ehangach](#)
- Gall y Canolfannau hyn ddarparu cynghor ac adborth cyn ymgeisio, cefnogi cwmpasu a datblygu prosiectau, cysylltu ymgeiswyr ag arbenigedd technegol a phartneriaid cyflawni, a hwyluso dysgu gan gymheiriaid a rhannu gwybodaeth.
- Gall ymgeiswyr sydd wedi'u lleoli yng Nghymru a Gogledd Iwerddon gael mynediad at gymorth ychwanegol gan sefydliadau rhanbarthol a chenedlaethol perthnasol sy'n gweithio ym maes ynni cymunedol a datgarboneiddio lleol. Mae hyn yn cynnwys [Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru \(WGES\)](#) yng Nghymru ac [Advice NI](#) yng Ngogledd Iwerddon.

Gall y sefydliadau hyn ddarparu cynghor a chymorth datblygu prosiectau cynnar, helpu ymgeiswyr i lywio tirweddau polisi, cynllunio ac ariannu lleol a chysylltu prosiectau â phartneriaid ac arbenigedd lleol.

Anogir ymgeiswyr yn y rhanbarthau hyn i ymgysylltu â chyrff cymorth priodol cyn gynted â phosibl er mwyn cryfhau eu cynigion a sicrhau eu bod yn cyd-fynd â chyd-destunau cyflawni lleol.

Tîm Benthyciadau a Grantiau Canolog GBE Local

Caiff y GBECF ei weinyddu gan y tîm Grantiau a Benthyciadau Canolog (CGL), sy'n rhan o'r Adran Diogelwch Ynni a Sero Net. Dylid cyfeirio ymholiadau ffurfiol ynghylch y broses ymgeisio (dyddiadau cau, llwybrau cyflwyno, a ffurflenni) at **Localgrants@gbe.gov.uk**

Dylai ymgeiswyr gyfeirio at dudalen we swyddogol GBE Local am wybodaeth gyfredol, cwestiynau cyffredin ac arweiniad.

Amodau Ariannu a Pharmedrau Grantiau

Darperir yr holl gyllid ar ffurf grant ac fe'i dyfernir ar sail gystadleuol. Mewn amgylchiadau cyfyngedig ac eithriadol, gall GBE gytuno i wneud taliad ymlaen llaw o hyd at 25% o grant Cam 1 os gall ymgeisydd ddangos nad oes ganddo ddigon o lif arian i dalu costau prosiect cymwys wrth aros am ad-daliad. Ystyrir ceisiadau am daliad ymlaen llaw fesul achos a rhaid iddynt gael eu cefnogi gan dystiolaeth ariannol sy'n dderbyniol i GBE; gall hyn gynnwys datganiadau banc, rhagolygon llif arian neu wybodaeth arall y gofynnir amdani gan GBE. Bydd darparu a swm unrhyw daliad ymlaen llaw yn ôl disgrisiwn GBE a gall fod yn amodol ar amodau ychwanegol.

Dim ond costau y mae dystiolaeth yn dangos bod gwaith cymwys wedi'i gwblhau ar eu cyfer, a bod rhwymedigaeth wedi codi, fydd yn cael eu talu ymlaen llaw (er enghraifft, drwy anfonebau am waith wedi'i gwblhau). Rhaid i ymgeiswyr ddarparu dystiolaeth, sy'n dderbyniol i GBE, bod y gwariant wedi'i dalu wedi hynny. Bydd yr holl wariant a gefnogir drwy daliadau ymlaen llaw yn destun gwiriad dilysu llawn adeg y hawliad nesaf, ac mae GBE yn cadw'r hawl i adennill cyllid os na ddarperir dystiolaeth foddhaol o dalu.

Mewn achosion priodol a gymeradwyir gan GBE, gall cyllid grant dalu costau a ysgwyddir gan y cwmni prosiect y mae gan y sefydliad cymunedol fuddiant ynddo. Pan fydd hyn yn wir, bydd angen i GBE fod yn fodlon bod unrhyw drydydd partïon sydd â buddiant yn y cwmni prosiect (e.e. cyfranddalwyr eraill) yn gwneud cyfraniadau tebyg a phriodol i'r cwmni prosiect, er mwyn osgoi i'r trydydd partïon hynny gael budd anuniongyrchol annheg o GBECF. Byddai GBE yn asesu unrhyw gynnig bod GBECF yn talu costau cwmnïau prosiect yn ystod y cam diwydrwydd dyladwy, a gall GBE wrthod cynnig o'r fath yn ôl ei ddisgrisiwn, er enghraifft, lle mae barn GBE yn nodi y byddai'r math o drefniadau a nodir uchod mewn perthynas â thrydydd partïon yn annigonol.

Dylai ymgeiswyr sicrhau bod ganddynt drefniadau llif arian digonol ar waith i fodloni gwariant y prosiect cyn hawlio cyllid grant. Mae GBE yn cydnabod y gall llif arian fod yn heriol i rai sefydliadau a bydd yn trafod proffiliau talu a threfniadau carreg filltir gydag ymgeiswyr llwyddiannus fel rhan o drafodaethau dyfarnu grantiau. Rhaid i unrhyw

drefniadau talu barhau i fod yn gyson â'r gofynion sy'n llywodraethu'r defnydd priodol o arian cyhoeddus.

Dylai ymgeiswyr geisio dyfynbrisiau cystadleuol (yr arfer gorau yw cael tri dyfynbris) lle bo'n bosibl neu ddarparu cyfiawnhad clir lle nad yw hyn yn bosibl. Mae hefyd yn ofynnol i ymgeiswyr ddangos bod costau'n rhesymol ac yn gymesur â'r allbynnau.

Lle ceir llai na thri dyfynbris, rhaid i ymgeiswyr ddarparu esboniad clir. Gall rhesymau derbyniol gynnwys:

- mae nifer cyfyngedig o gyflenwyr sy'n gallu darparu'r nwyddau neu'r gwasanaethau gofynnol;
- mae'r gwaith yn gofyn am arbenigedd arbenigol sydd ar gael gan nifer bach o ddarparwyr yn unig;
- rhaid cadw cyflenwr presennol am resymau cydnawsedd technegol, parhad neu warant;
- gwnaed ymdrechion dilys i gael dyfynbrisiau ychwanegol, ond ni chafwyd unrhyw ddyfynbrisiau pellach; neu
- mae amgylchiadau eithriadol sy'n golygu bod cael tri dyfynbris yn anymarferol neu'n anghymesur.

Caniateir hunangyflenwi (e.e. grwpiau cymunedol yn cyflawni gwaith yn uniongyrchol) lle:

- gellir dangos gallu;
- mae costau yn cyd-fynd â chyfraddau'r farchnad (rydym yn cadw'r hawl i ofyn am ddyfynbrisiau cymharol);
- gellir dangos tystiolaeth o werth am arian;
- mae unrhyw wrthdaro buddiannau gwirioneddol, posibl neu ganfyddedig yn cael eu nodi, eu datgan a'u rheoli'n briodol;
- nid yw'r trefniant yn darparu budd preifat annheg i unrhyw unigolyn neu sefydliad sy'n gysylltiedig â'r prosiect.

Bydd gofyn i dderbynwyr grant hysbysu GBE am newidiadau sylweddol penodol i'r prosiect ac i'w hamgylchiadau. Mewn rhai sefyllfaoedd, gallai hyn arwain at GBE yn newid telerau'r grant, yn rhoi'r gorau i wneud taliadau neu'n adennill cyllid.

Sut i wneud Cais a Dyddiadau Allweddol

Y Broses Ymgeisio

Bydd y GBECF ar agor ar gyfer cyfnod ymgeisio cychwynnol, gyda ffurflenni cais ar wahân ar gyfer pob cam (Cam 1, Cam 2 a Cham 3). Gall GBE ystyried agor cyfnodau ymgeisio pellach os bydd cyllid yn parhau i fod ar gael.

Camau allweddol:

Cam	Digwyddiad	Manylion
1	Gwiriwch gymhwysedd a pharatowch	Sicrhewch fod eich sefydliad a'ch prosiect yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd.
2	Cwblhewch y ffurflen gais	Darparwch wybodaeth am: sefydliad a llywodraethu; cwmpas a gweithgareddau'r prosiect; budd cymunedol; costau a chynllun cyflawni; a chydymffurfiaeth â meini prawf asesu.
3	Cyflwynwch erbyn y dyddiad cau	Rhaid cyflwyno ceisiadau drwy'r porth dynodedig cyn i'r ffenestr ymgeisio gau ar 12^{fed} Tachwedd 2026, 11:55pm . Ni dderbynnir ceisiadau hwyr neu anghyflawn. Bydd ceisiadau a dderbynnir o fewn ffenestr ymgeisio yn cael eu hasesu gyda'i gilydd a gwneir penderfyniadau ariannu ar ôl i'r ffenestr gau.
4	Asesiad a phenderfyniad	Caiff ceisiadau eu hystyried drwy'r camau canlynol: 1. Gwiriad cyflawnder a chymhwysedd: Cadarnhad bod yr ymgeisydd a'r prosiect yn bodloni'r holl ofynion cymhwysedd gorfodol. 2. Asesiad wedi'i sgorio: Asesiad yn erbyn y meini prawf penodol i'r cam cyhoeddedig. 3. Cymedroli a graddio: Cymedroli sgoriau, cymhwyso safonau ariannu gofynnol, a graddio a dyrannu yn unol â'r fethodoleg ddyrannu. 4. Diwydrwydd dyladwy: Gwirio statws cyfreithiol, gallu ariannol, gwybodaeth am y prosiect, cydymffurfiaeth â rheoli cymorthdaliadau, trefniadau perchnogaeth, costau, cyllid cyfatebol, a gwybodaeth berthnasol arall. 5. Dyfarniad grant: Cytundeb ar y dyfarniad terfynol, y danfoniadau, proffil talu, a Chytundeb Cyllido Grant.

Sut caiff ceisiadau eu hasesu

Caiff ceisiadau ar bob cam eu hasesu ar sail cystadleuol.

Ni ellir ariannu cynigion nad ydynt yn bodloni meini prawf hanfodol ynghylch cymhwysedd a rheoli cymorthdaliadau, ac ni chânt eu hasesu'n llawn. Oherwydd natur gystadleuol y cynllun, ni chaiff pob cais cymwys ei ariannu.

Bydd aseswyr yn rhoi sgôr o 1 i 5 ar gyfer pob cwestiwn sy'n cael ei sgorio yn y ffurflen gais, yn seiliedig ar ansawdd yr ymateb, y dystiolaeth ategol a ddarparwyd, a'r modd y mae'r cais yn cyd-fynd â'r meini prawf asesu cyhoeddedig.

Er mwyn bod yn gymwys i gael cyllid, rhaid i gais gael sgôr wedi'i gymedroli o 3 o leiaf ym mhob maes asesu. Ni chaiff cais sy'n cael sgôr o 1 neu 2 mewn unrhyw faes asesu ei argymhell ar gyfer cyllid, waeth beth fo'i sgôr â phwysoliad cyffredinol.

Gwybodaeth bwysig ynghylch y Broses

- Bydd y gronfa ar agor ar gyfer ceisiadau yn ystod un cyfnod ymgeisio yn unig. Os bydd cyllid yn parhau i fod ar gael ar ddiwedd y cyfnod hwn, gall GBE ystyried agor cyfnodau ymgeisio pellach.
- Mae maint y Gronfa yn fater o ddisgresiwn ac mae ganddi derfyn maint. Mae GBE yn cadw'r hawl i gynyddu neu leihau maint y Gronfa ar unrhyw adeg ac am unrhyw reswm.
- Mae GBE yn cadw'r hawl i ymestyn y blynyddoedd dyrannu ar unrhyw adeg ac am unrhyw reswm.
- Gall GBE fyrhau neu ymestyn cyfnodau ymgeisio a gall benderfynu agor cyfnodau ymgeisio pellach nes bod yr holl gyllid sydd ar gael wedi'i ddefnyddio.
- Mae GBE yn cadw'r hawl i wrthod cais os yw ymgeisydd yn gwrthod datgelu unrhyw wybodaeth y gofynnwyd amdani neu os nad yw'n darparu gwybodaeth yn brydlon fel y gofynnwyd.
- Mae GBE yn cadw'r hawl i gynnig swm grant is i ymgeisydd na'r swm y gwnaed cais amdano.
- Mae'r Gronfa a'r dyfarniadau cyllid grant ohoni yn faterion o ddisgresiwn. Nid oes hawl awtomatig i gael dyfarniad cyllid na chyllid yn y swm y gofynnwyd amdano.
- Mae GBE yn cadw'r hawl i beidio â derbyn unrhyw gais ac i beidio â rhoi unrhyw grant, ac yn cadw'r hawl i ganslo'r Gronfa cyn iddi ddod i ben (boed yn gyfan gwbl neu'n rhannol) neu ar unrhyw adeg cyn cytuno ar unrhyw Gytundeb Cyllid Grant ("GFA") a'i weithredu.
- Nes bod GFA (cytundeb cyllid grant) wedi'i gytuno a'i weithredu, ni fydd GBE yn gyfrifol am gostau y gall ymgeiswyr eu hwynebu, ac ni fydd GBE yn gwneud unrhyw ymrwymiad mewn perthynas â chostau o'r fath. Cynghorir ymgeiswyr i beidio â gwneud unrhyw ymrwymadau di-droi'n-ôl i ysgwyddo gwariant prosiect gan ddibynnu ar gyllid gan GBE ar unrhyw adeg cyn gweithredu GFA yn derfynol.
- Nid oes gan GBE unrhyw rwymedigaeth i ddarparu adborth i unrhyw ymgeisydd aflwyddiannus. Fodd bynnag, gall ymgeiswyr sy'n cael eu gwrthod ar unrhyw gam o'r broses a amlinellir yn y Canllawiau hyn ofyn am adborth, a gall GBE (yn ôl ei ddisgresiwn) ddarparu adborth i'r ymgeisydd yn seiliedig ar sylwadau cryno o'i

broses asesu. Nid oes proses apelio benodol, ac nid yw GBE yn gyfrifol am unrhyw gostau sy'n gysylltiedig ag unrhyw gais.

- Bydd ymgeiswyr yn parhau i fod yn gyfrifol am yr holl gostau a threuliau a ysgwyddir ganddynt hwy, eu staff, a'u cynghorwyr, neu gan unrhyw drydydd parti sy'n gweithredu o dan eu cyfarwyddiadau mewn cysylltiad â'r gystadleuaeth hon. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, nid yw GBE yn atebol am unrhyw gostau neu wariant sy'n deillio o unrhyw ganslo neu ddiwygio'r gystadleuaeth hon.
- Bydd rhesymau dros benderfyniadau mewn perthynas â cheisiadau yn cael eu cofnodi ym mhob cam at ddibenion gweinyddiaeth dda ac i sicrhau bod llwybr archwilio clir ar gyfer pob penderfyniad. Bydd cofnodion gweinyddol yn cael eu cadw ar gyfer pob cais, waeth a ydynt yn llwyddiannus ai peidio.

Cam 1 – Fframwaith Asesu

Maen prawf asesu	Pwysoliad
Gallu a llywodraethu sefydliadol	12.5%
Hyfywedd a chyflawnadwyedd y prosiect	25%
Perchnogaeth a budd i'r gymuned	25%
Cyllid, gan gynnwys gwerth am arian	25%
Risgiau a sut y cânt eu rheoli	12.5%

Maes Asesu	Rydym yn disgwyl i chi ddangos	Dylech chi ddangos tystiolaeth o hyn drwy ddarparu	Ymatebion sgorio uchel (4–5)	Ymatebion sgôr canolig (3 – Sgôr Isaf y gellir ei Gyllido)	Ymatebion sgorio isel (1–2)	Adrannau'r Cais
Gallu a Llywodraethu Sefydliadol	Bod gan eich sefydliad y trefniadau llywodraethu, y sgiliau, y capasiti a'r trefniadau rheoli ariannol sydd eu hangen i reoli cyllid cyhoeddus a chyflawni'r gweithgareddau arfaethedig ar gyfer Cam 1.	Personél allweddol, profiad perthnasol, strwythur sefydliadol, trefniadau cyflawni, rolau a chyfrifoldebau tîm y prosiect, partneriaid cyflawni (lle bo'n berthnasol), a gwybodaeth ariannol sy'n dangos gallu'r sefydliad i reoli cyllid grant.	Yn dangos trefniadau llywodraethu clir; rheolaethau ariannol priodol; digon o brofiad perthnasol; gallu sefydliadol; a dealltwriaeth gref o'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â rheoli cyllid cyhoeddus.	Yn dangos trefniadau llywodraethu digonol, sgiliau a phrofiad perthnasol, capasiti sefydliadol, a rheolaethau ariannol i reoli cyllid cyhoeddus a chyflawni'r prosiect. Gall fod rhai gwendidau bach neu fylchau mewn tystiolaeth, ond nid ydynt yn tanseilio hyder yn y broses gyflawni i raddau sylweddol.	Mae'r trefniadau llywodraethu, y sgiliau a'r profiad perthnasol, y gallu sefydliadol, y rheolaethau ariannol, neu allu'r sefydliad i reoli cyllid cyhoeddus yn aneglur, heb ddigon o dystiolaeth, neu'n creu ansicrwydd sylweddol ynghylch cyflawni gweithgareddau arfaethedig Cam 1.	Adran 2: Manylion y Prosiect (Sgiliau a Phrofiad).

SWYDDOGOL

Hyfywedd a Hygyrchedd Cyflawni'r Prosiect	Bod y cyfle prosiect, y dechnoleg arfaethedig a'r safle(oedd) posibl wedi'u nodi a'u bod wedi'u datblygu'n ddigonol i gefnogi asesiad dichonoldeb ystyrion.	Disgrifiad o'r prosiect, y dechnoleg arfaethedig, gwybodaeth am y safle, rhesymeg y prosiect, ystyriaethau technegol, cynllun y prosiect a gweithgareddau dichonoldeb arfaethedig.	Yn cyflwyno cysyniad prosiect clir a datblygedig gyda rhesymeg gymhellol. Yn dangos dealltwriaeth gref o'r ystyriaethau technegol, masnachol, gweithredol, rheoleiddiol a chyflawni allweddol sy'n berthnasol i'r prosiect neu'r gweithgaredd arfaethedig. Yn egluro'n glir sut y bydd y gweithgareddau Cam 1 arfaethedig yn profi, datblygu neu sefydlu hyfywedd a chyflawnadwyedd y prosiect ac yn cefnogi dilyniant i'r cam datblygu nesaf.	Yn cyflwyno cysyniad prosiect credadwy a rhaglen dichonoldeb realistig. Mae rhai materion technegol, materion yn ymwneud â'r safle neu faterion cyflawni yn parhau i fod yn ansicr, ond maent yn briodol ar gyfer cam dichonoldeb a gellir eu harchwilio'n rhesymol drwy'r gweithgareddau arfaethedig.	Mae cysyniad y prosiect yn aneglur, wedi'i ddiffinio'n wael neu heb ei ddatblygu'n ddigonol, neu nid yw'r cais yn dangos sut y bydd y gweithgareddau arfaethedig yn sefydlu dichonoldeb y prosiect neu a oes gan y prosiect obaith realistig o symud yn ei flaen.	Adran 2: Manylion y Prosiect (Trosolwg o'r Prosiect; Technegol a Chyflawni; Cynllun y Prosiect; Cwestiynau am Safleoedd Lluosog lle bo'n berthnasol).
Perchenogaeth a Budd i'r Gymuned	Bod y prosiect yn cael ei arwain gan y gymuned, neu fod ganddo lwybr credadwy tuag at fod yn eiddo i'r gymuned, a'i fod wedi'i gynllunio i ddarparu buddion parhaol i'r gymuned leol.	Tystiolaeth o ymgysylltiad cymunedol, cefnogaeth leol, perthnasoedd cymunedol, uchelgeisiau perchnogaeth, model perchnogaeth arfaethedig a manteision cymunedol disgwylidig.	Yn dangos cysylltiadau cryf sy'n bodoli eisoes â'r gymuned leol; ymgysylltiad neu berthnasoedd cymunedol sefydledig; llwybr credadwy i berchnogaeth gymunedol; a manteision	Yn dangos dealltwriaeth resymol o'r gymuned a rhywfaint o dystiolaeth o ymgysylltu neu gefnogaeth. Mae'r cynigion ar gyfer perchnogaeth a budd i'r gymuned yn gredadwy ond mae angen eu datblygu ymhellach yn ystod Cam 1.	Mae'n darparu tystiolaeth sy'n gyfyngedig o ymgysylltu â'r gymuned, uchelgeisiau perchnogaeth neu fudd lleol. Fel arall, nid yw rôl y gymuned wrth lunio'r prosiect, ei berchenogi neu elwa ohono yn glir.	Adran 2: Manylion y Prosiect (Perchnogaeth) Adran 3: Cymuned (Buddion Cymunedol; Cyflogaeth a Sgiliau lle bo'n berthnasol).

			cymunedol wedi'u diffinio'n glir. Mae'r cais yn egluro sut y bydd pobl leol yn dylanwadu ar ddatblygiad prosiect ac yn rhannu yng nghanlyniadau'r prosiect.			
Cyllid, Gan gynnwys Gwerth am Arian	Bod y costau arfaethedig yn rhesymol, yn angenrheidiol ac yn gymesur, yn cynrychioli gwerth am arian, a bod angen cyllid grant i ymgymryd â'r gwaith dichonoldeb arfaethedig.	Dadansoddiad costau, dyfynbrisiau neu amcangyfrifon, dull caffael, cyfiawnhad hunangyflenwi, cais am gyllid ac esboniad o'r hyn a fyddai'n digwydd heb gyllid grant.	Mae costau wedi'u cysylltu'n glir â gweithgareddau cymwys ac wedi'u cefnogi gan dystiolaeth. Mae caffael a dewis cyflenwyr wedi'u hegluro'n dda. Mae'r swm y gofynnwyd amdano wedi'i gyfiawnhau ac mae'r ymgeisydd yn dangos yn glir pam mae angen cyllid grant a beth fyddai'n digwydd heb gefnogaeth.	Mae'r gyllideb yn gredadwy ar y cyfan ac mae'r costau'n ymddangos yn rhesymol ac yn gymesur. Mae gwerth am arian a'r angen am gyllid wedi'u hegluro'n rhesymol, er y gall tystiolaeth ategol fod yn gyfyngedig mewn rhai meysydd.	Mae'r costau'n wael eu sail mewn tystiolaeth, yn anghymesur neu heb eu cyfiawnhau'n ddigonol. Mae'r achos dros werth am arian neu'r angen am gyllid grant yn wan neu'n aneglur.	Adran 4: Cyllid (Gofyniad Cyllido; Tystiolaeth Ariannol Caffael).
Risgiau a Sut Cânt eu Rheoli	Eich bod yn deall y prif risgiau sy'n effeithio ar y prosiect, bod gennyh gynlluniau cymesur ar gyfer eu rheoli, a'ch bod yn gallu cyflawni, monitro a gwerthuso gweithgareddau arfaethedig Cam 1 yn effeithiol.	Cofrestr risg, mesurau lliniaru, trefniadau monitro.	Yn nodi risgiau technegol, cynllunio, tir, grid, ariannol, llywodraethu a chymunedol perthnasol ac yn nodi mesurau lliniaru credadwy.	Mae'n nodi'r prif risgiau ac yn dangos dealltwriaeth resymol o sut y cânt eu rheoli. Mae'r trefniadau rheoli prosiect yn ddigonol i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r prosiect, er bod angen datblygu rhai risgiau neu fesurau lliniaru ymhellach.	Nid yw risgiau allweddol wedi'u nodi, neu mae mesurau lliniaru yn wan neu'n afrealistig. Nid yw'r trefniadau cyflawni yn rhoi hyder y bydd y gwaith yn cael ei gyflawni'n llwyddiannus.	Adran 5: Risgiau (Risgiau Cyflawni)

Cam 2 – Fframwaith Asesu

Bydd cwestiynau sy'n cael eu sgorio yn derbyn sgôr o 1 i 5. Mae'r disgrifwyr isod yn rhoi canllaw cyffredinol ar safon y dystiolaeth a ddisgwylir ar draws y cwestiynau sy'n cyfrannu at bob maes asesu. Ar gyfer ceisiadau Cam 2, nodir y pwysoliadau yn y tabl isod:

Maen Prawf Asesu	Pwysoliad
Gallu a llywodraethu sefydliadol	12.5%
Hyfywedd a chyflawnadwyedd y prosiect	25%
Perchnogaeth a budd i'r gymuned	25%
Cyllid, gan gynnwys gwerth am arian	25%
Risgiau a sut y cânt eu rheoli	12.5%

Maes Asesu	Pwysoliad	Rydym yn disgwyl i chi ddangos	Dylech chi ddangos dystiolaeth o hyn drwy ddarparu	Ymatebion sgorio uchel (4–5)	Ymatebion sgorio canolig (3 – Sgôr Isaf y gellir ei Gyllido)	Ymatebion sgorio isel (1–2)	Adrannau'r Cais
Gallu a Llywodraethu Sefydliadol	12.5%	Bod gan eich sefydliad y trefniadau llywodraethu, y sgiliau, yr adnoddau a'r trefniadau cyflawni sy'n angenrheidiol i ddatblygu'r prosiect hyd at y cam o fod yn barod i dderbyn buddsoddiad, ac i	Trefniadau llywodraethu, strwythur y tîm prosiect, rolau a chyfrifoldebau, partneriaid cyflawni, cyngorwyr arbenigol, profiad sefydliadol, trefniadau rheoli ariannol a thystiolaeth o'r gallu i reoli'r rhaglen ddatblygu arfaethedig.	Yn dangos trefniadau llywodraethu cadarn, gallu technegol a gallu rheoli prosiectau priodol, rolau partneriaid wedi'u diffinio'n glir, mynediad at arbenigedd arbenigol, rheolaethau ariannol cadarn a digon o gapasiti sefydliadol i	Yn dangos digon o lywodraethu, sgiliau, adnoddau a gallu cyflawni i symud y prosiect ymlaen. Mae rhai gwendidau'n bodoli ond maent yn cael eu cydnabod a gellir mynd i'r afael â nhw drwy'r cyfnod datblygu.	Mae trefniadau llywodraethu, gallu cyflawni, sgiliau allweddol neu gapasiti sefydliadol yn aneglur neu heb ddigon o dystiolaeth, gan achosi pryderon sylweddol ynghylch cyflawni.	Adran 2: Manylion y Prosiect (Sgiliau a Phrofiad)

SWYDDOGOL

		reoli grant cyhoeddus mwy.		gyflawni rhaglen Cam 2.			
Hyfywedd a Hygyrchedd Cyflawni'r Prosiect	25%	Bod y prosiect yn dechnegol ddichonadwy, yn gallu symud ymlaen i fod yn barod ar gyfer buddsoddi, a bod ganddo lwybr realistig i'w gyflawni. Mae'r ymgeisydd yn dangos bod astudiaeth ddichonoldeb briodol wedi'i chwblhau ac wedi nodi'r gweithgareddau datblygu allweddol sy'n ofynnol i symud y prosiect ymlaen i fod yn barod ar gyfer buddsoddi.	Canlyniadau gwaith Cam 1 (lle bo'n berthnasol), astudiaethau dichonoldeb, gwybodaeth am y safle, lleoliad ar y grid, strategaeth gynllunio, rhaglen ddatblygu, cynllun y prosiect a thystiolaeth dechnegol ategol.	Yn dangos prosiect datblygedig gyda llwybr cyflawni clir. Mae tystiolaeth gref o hyfywedd technegol. Mae materion safle, cynllunio, tir, grid a chyflenwi wedi'u deall yn dda ac mae llwybr credadwy i fod yn barod i fuddsoddi.	Yn dangos prosiect y gellir ei wireddu, gyda llwybr datblygu realistig. Mae peth ansicrwydd yn parhau, ond gellir ei ddatrys yn realistig drwy'r gweithgareddau arfaethedig ar gyfer Cam 2.	Mae ansicrwydd sylweddol yn parhau ynghylch hyfywedd technegol, addasrwydd safle, cynllunio, perchnogaeth tir, cysylltiad â'r grid neu strategaeth gyflawni. Fel arall, nid yw'r cais yn rhoi hyder y gall y prosiect symud ymlaen i fod yn barod ar gyfer buddsoddi.	Adran 2: Manylion y Prosiect (Trosolwg o'r Prosiect; Technegol a Chyflawni; Uwchlwytho Astudiaeth Hyfywedd; Parodrwydd ar gyfer Cam 2; Cynllun y Prosiect; Cwestiynau am Safleoedd Lluosog lle bo'n berthnasol)
Perchnogaeth a Budd Cymunedol	25%	Bod gan y prosiect lwybr credadwy a datblygedig tuag at berchnogaeth gymunedol, a'i fod yn mynd i ddarparu buddion parhaol i'r gymuned leol. Mae'r ymgeisydd yn darparu tystiolaeth o ymgysylltu â'r gymuned ac o fodel perchnogaeth a	Cynigion perchnogaeth, trefniadau llywodraethu, gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned, tystiolaeth o gefnogaeth y gymuned, cynigion ar gyfer rhannu buddion a chynlluniau ar gyfer parhau i gymryd rhan yn natblygiad y prosiect.	Mae'n dangos ymgysylltiad cryf â'r gymuned, tystiolaeth glir o gefnogaeth gan y gymuned leol, model perchnogaeth credadwy a datblygedig, a buddion cymunedol wedi'u nodi'n glir. Mae rôl y gymuned o ran gwneud penderfyniadau a	Mae'n dangos cynnig credadwy o ran perchnogaeth a budd i'r gymuned. Mae gweithgaredd ymgysylltu wedi'i gynnal ac mae sail resymol dros gefnogaeth y gymuned, er bod angen datblygu rhagor ar agweddau ar y trefniadau	Tystiolaeth gyfyngedig o ymgysylltu â'r gymuned, cefnogaeth, trefniadau perchnogaeth neu fudd i'r gymuned. Fel arall, mae'r llwybr tuag at berchnogaeth gymunedol yn parhau i fod yn aneglur neu wedi'i ddatblygu'n wael.	Adran 2: Manylion y Prosiect (Perchnogaeth) Adran 3: Cymuned (Buddion Cymunedol; Cyflogaeth a Sgiliau)

SWYDDOGOL

		llywodraethu credadwy ar gyfer y prosiect.		pherchnogaeth yn y dyfodol wedi'i diffinio'n glir.	perchnogaeth neu fudd.		
Cyllid, gan gynnwys Gwerth am Arian	25%	Bod costau'r prosiect yn rhesymol ac yn gymesur, yn cynrychioli gwerth am arian, a bod gan yr ymgeisydd strategaeth ariannol gredadwy ar gyfer symud y prosiect yn ei flaen tuag at fod yn barod ar gyfer buddsoddiad.	Cyllideb fanwl, dull caffael, dyfynbrisiau neu amcangyfrifon cost, cyfiawnhad dros werth am arian, cyfrifon ariannol, strategaeth ariannu, ac esboniad o pam mae angen cymorth grant.	Yn darparu cyllideb gadarn sy'n seiliedig ar dystiolaeth gref ac sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â gweithgareddau cymwys. Yn dangos gwerth da am arian, strategaeth ariannu gredadwy, rhagdybiaethau realistig ac esboniad clir o pam mae angen cyllid grant. Mae'r wybodaeth ariannol yn rhoi hyder ynghylch gallu'r sefydliad i reoli'r cyllid arfaethedig.	Mae rhagdybiaethau cyllidebol ac ariannol yn gredadwy ar y cyfan ac mae'r costau'n ymddangos yn rhesymol ac yn gymesur. Eglurir gwerth am arian a'r angen am gyllid, er y gallai fod angen eglurhad pellach ar rywfaint o dystiolaeth yn ystod y broses ddiwydrwydd dyladwy.	Mae'r costau wedi'u cyfiawnhau'n wael, yn anghymesur neu heb ddigon o dystiolaeth. Fel arall, mae pryderon sylweddol ynghylch fforddiadwyedd, gwerth am arian, rheolaeth ariannol neu'r angen am gymorth grant.	Adran 4: Cyllid (Gofyniad Cyllido; Caffael; Tystiolaeth Ariannol)
Risgiau a Sut y cânt eu Rheoli	12.5%	Eich bod yn deall y prif risgiau datblygu sy'n effeithio ar y prosiect, a bod gennych gynlluniau realistig i'w rheoli a chyflawni'r gweithgareddau arfaethedig ar gyfer Cam 2.	Cofrestr risg, mesurau lliniaru.	Yn nodi'r holl brif risgiau technegol, cynllunio, ariannol, cyfreithiol, tir, y grid, caffael a llywodraethu, ac yn darparu mesurau lliniaru cymesur a chredadwy.	Yn nodi prif risgiau'r prosiect ac yn darparu mesurau lliniaru rhesymol. Mae'r trefniadau cyflawni yn gredadwy ar y cyfan ac yn cefnogi cynnydd y prosiect tuag at fod yn barod ar gyfer buddsoddiad.	Mae risgiau allweddol ar goll, heb eu deall yn dda neu heb eu lliniaru'n ddigonol. Fel arall, nid yw trefniadau'r prosiect yn rhoi hyder y gellir cyflawni'r rhaglen ddatblygu'n llwyddiannus.	Adran 5: Risgiau (Risgiau Cyflawni)

Cam 3 – Fframwaith Asesu

Bydd cwestiynau sy'n cael eu sgorio yn derbyn sgôr o 1 i 5. Mae'r disgrifwyr isod yn rhoi canllaw cyffredinol ar safon y dystiolaeth a ddisgwylir ar draws y cwestiynau sy'n cyfrannu at bob maes asesu. Ar gyfer ceisiadau Cam 3, nodir y pwysoliadau yn y tabl isod:

Maen Prawf Asesu	Pwysoliad
Gallu a llywodraethu sefydliadol	15%
Hyfywedd a chyflawnadwyedd y prosiect	30%
Perchnogaeth a budd i'r gymuned	15%
Cyllid, gan gynnwys gwerth am arian	20%
Risgiau a sut y cânt eu rheoli	20%

Maes Asesu	Rydym yn disgwyl i chi ddangos	Dylech chi ddangos tystiolaeth o hyn drwy ddarparu	Ymatebion sgorio uchel (4–5)	Ymatebion sgorio canolig (3 – Sgôr Isaf y gellir ei Gyllido)	Ymatebion sgorio isel (1–2)	Adrannau'r Cais
Gallu a Llywodraethu Sefydliadol	Bod gan eich sefydliad, eich partneriaid cyflawni a'ch cynghorwyr y gallu, yr arbenigedd a'r trefniadau llywodraethu angenrheidiol i gyflawni, berchen ar a gweithredu'r prosiect yn llwyddiannus.	Trefniadau llywodraethu, strwythur y tîm prosiect, profiad perthnasol o gyflawni, arbenigedd technegol, prif gynghorwyr, rolau a chyfrifoldebau, trefniadau gweithredol a gallu sefydliadol.	Yn dangos trefniadau llywodraethu cadarn, staff cyflawni profiadol, mynediad at arbenigedd technegol, cyfreithiol a masnachol priodol, cyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir a digon o gapasiti i gyflawni a gweithredu'r prosiect.	Yn dangos trefniadau llywodraethu priodol, profiad perthnasol a chapasiti sefydliadol i gyflawni'r prosiect. Mae'r cais yn darparu digon o dystiolaeth i gefnogi'r cyflawniad, er y gallai trefniadau llywodraethu, profiad neu gapasiti fod yn llai datblygedig, cadarn neu gynhwysfawr nag y byddai disgwyl mewn cais â sgôr uchel.	Mae trefniadau llywodraethu, profiad perthnasol, arbenigedd technegol neu gapasiti sefydliadol yn aneglur neu heb ddigon o dystiolaeth, gan greu pryderon sylweddol ynghylch cyflawni.	Adran 2 (Sgiliau a Phrofiad); Adran 4 (Gweithrediadau a Rheoli Asedau)
Hyfywedd a Hygyrchedd Cyflawni'r Prosiect	Bod y prosiect wedi cwblhau'r gweithgareddau datblygu sy'n angenrheidiol i gyrraedd parodrwydd ar gyfer adeiladu, gan gynnwys gofynion	Cynllun prosiect manwl, rhaglen gyflawni, statws cynllunio, hawliau tir, trefniadau'r grid, astudiaethau technegol, amcangyfrifon cynhyrchu,	Yn dangos prosiect sydd wedi'i ddatblygu'n dda gyda lefel uchel o hyder cyflawni. Caniatâd cynllunio ar waith, cysylltiad grid wedi'i sicrhau a chytundebau	Mae'n dangos prosiect y gellir ei gyflawni ar y cyfan, gyda llwybr credadwy at y camau adeiladu a gweithredu. Mae rhai materion heb eu datrys o hyd, ond mae cynllun realistig ar waith	Mae ansicrwydd sylweddol yn parhau ynghylch hyfywedd y prosiect, amserlen y gwaith cyflawni, cynllunio, perchnogaeth tir, cysylltiad â'r grid	Adran 2: Manylion y Prosiect (Trosolwg o'r Prosiect; Technegol a Chyflawni; Tystiolaeth Dechnegol; Cynllunio; Cysylltiad â'r Grid; Cytundebau Tir; Rhaglen Gyflawni; Cynllun y Prosiect)

	cynllunio, tir, grid, technegol, cyflawni a chyllido. Bod y prosiect yn barod ar gyfer adeiladu, yn dechnegol hyfyw ac yn gallu cael ei gyflawni o fewn yr amserlen a'r gyllideb arfaethedig.	amcangyfrifon arbedion carbon a thystiolaeth o barodrwydd y prosiect.	mynediad i dir wedi'u llofnodi, a dim ond pryderon technegol bach. Mae'r rhaglen gyflawni yn realistig ac wedi'i chefnogi gan dystiolaeth gadarn. Mae tystiolaeth glir o'r arbedion cynhyrchu a charbon disgwylidig.	i'w datrys cyn i'r prosiect ddechrau.	neu hyfywedd technegol.	
Perchenogaeth a Budd Cymunedol	Bod gan y prosiect drefniadau perchnogaeth gymunedol clir a chredadwy, ac y bydd yn darparu buddion y tu hwnt i gynhyrchu ynni yn unig.	Strwythur perchnogaeth, trefniadau llywodraethu, cynigion ar gyfer budd cymunedol, cynlluniau ar gyfer defnyddio refeniw, tystiolaeth o ymgysylltu â'r gymuned, buddion economaidd lleol a thystiolaeth o ychwanegoldeb.	Yn dangos model perchnogaeth clir a chredadwy, dylanwad cryf gan y gymuned ar benderfyniadau'r prosiect, buddion sylweddol a mesuradwy i'r gymuned, ac achos argyhoeddiadol dros ychwanegoldeb cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ehangach.	Yn dangos model perchnogaeth a budd credadwy gyda thystiolaeth resymol o ychwanegoldeb a budd i'r gymuned, er bod angen datblygu rhai trefniadau ymhellach.	Mae trefniadau perchnogaeth gymunedol, cynigion budd neu honiadau ynghylch ychwanegoldeb yn aneglur, â thystiolaeth wan neu heb eu datblygu'n ddigonol.	Adran 2: Manylion y Prosiect (Perchnogaeth) Adran 3: Cymuned (Buddion i'r Gymuned; Perchnogaeth Gymunedol; Cyflogaeth a Sgiliau); Adran 4: Cyllid (Perchnogaeth)
Cyllid, gan gynnwys Gwerth am Arian	Bod y prosiect yn dangos angen clir am gyllid cyhoeddus, yn cynrychioli gwerth am arian, yn cynnwys pecyn cyllido credadwy y gellir ei gyflawni, ac yn gallu gwrthsefyll craffu ariannol trwy broses ddiwydrwydd dyladwy. Mae hyn yn cynnwys ystyried ychwanegoldeb, y bwlch ariannu	Model ariannol manwl, cyllideb y prosiect, strategaeth ariannu, tystiolaeth o gyllid cyfatebol, cytundebau ariannu, dull caffael, cyfrifon ariannol ac eglurhad o'r angen am gyllid grant.	Yn dangos model ariannol cadarn, gwerth cryf am arian, ychwanegoldeb clir, pecyn ariannu credadwy a chanddo dystiolaeth, rhagdybiaethau realistig ac esboniad argyhoeddiadol o pam mae angen cyllid grant.	Mae rhagdybiaethau ariannol yn gredadwy ar y cyfan ac mae'n ymddangos bod trefniadau ariannu yn gyraeddadwy. Mae angen egluro neu gadarnhau rhai materion trwy ddiwydrwydd dyladwy ond nid ydynt yn tanseilio hyfywedd cyffredinol.	Mae pryderon sylweddol ynghylch fforddiadwyedd, y strategaeth ariannu, hyfywedd ariannol, gwerth am arian neu'r gallu i sicrhau'r cyllid cyfatebol gofynnol.	Adran 4: Cyllid (Cyfalaf; Ychwanegoldeb; Gweithrediadau a Rheoli Asedau; Cyllid; Cyllid Cyfatebol; Gofyniad Cyllidol; Tystiolaeth Ariannol; Caffael)

	gweddilliol, arian cyfatebol a chymesuredd y cymorth grant a geisir.					
Risgiau a Sut y cânt eu Rheoli	Eich bod yn deall y prif risgiau sy'n effeithio ar gyflawni a gweithredu'r prosiect, a bod gennych drefniadau cymesur i'w rheoli.	Cofrestr risg, rheolaethau prosiect, llywodraethu cyflawni, strategaeth gaffael, cynllunio wrth gefn, mesurau lliniaru, trefniadau monitro ac adrodd.	Yn nodi ac yn rheoli'n briodol yr holl risgiau mawr o ran cyflawni, adeiladu, gweithredol, masnachol, llywodraethu ac ariannol. Mae perchnogaeth risg, lliniaru a threfniadau wrth gefn wedi'u diffinio'n glir ac yn gredadwy.	Mae'r prif risgiau wedi'u nodi ac yn cael eu rheoli'n dda ar y cyfan, er bod angen datblygu neu sicrhau rhai mesurau lliniaru ymhellach.	Mae risgiau allweddol ar goll, heb eu deall yn dda neu heb eu rheoli'n ddigonol. Fel arall, nid yw'r trefniadau rheoli risg yn rhoi hyder y bydd y prosiect yn cael ei gyflawni'n llwyddiannus.	Adran 5: Risgiau (Risgiau Cyflawni; Adolygiadau Sicrwydd; Iechyd a Diogelwch)

Atodiadau

Atodiad 1 – Asesu a Gwneud Penderfyniadau

Sgôr	Disgrifiad
1	Nid yw'r ymateb yn mynd i'r afael â'r cwestiwn yn ddigonol. Mae gwendidau, hepgoriadau neu bryderon sylweddol yn parhau.
2	Dim ond yn rhannol y mae'r ymateb yn mynd i'r afael â'r cwestiwn. Mae gwybodaeth bwysig ar goll, yn aneglur neu heb ei hesbonio'n ddigonol.
3	Mae'r ymateb yn mynd i'r afael â'r cwestiwn yn ddigonol ac yn darparu digon o wybodaeth ar gyfer asesu. Nid yw unrhyw wendidau'n berthnasol.
4	Mae'r ymateb yn mynd i'r afael â'r cwestiwn yn dda ac yn darparu gwybodaeth glir, berthnasol ac argyhoeddiadol.
5	Mae'r ymateb yn mynd i'r afael â'r cwestiwn yn gynhwysfawr ac yn darparu gwybodaeth glir, argyhoeddiadol a chefnogir yn dda.

Caiff ceisiadau eu hasesu yn erbyn y meini prawf asesu cyhoeddedig a nodir yn y canllawiau hyn. Rhoddir sgôr rhwng 1 a 5 i bob cwestiwn sy'n cael ei sgorio yn y ffurflen gais, yn seiliedig ar ansawdd yr ymateb a'r dystiolaeth ategol a ddarparwyd. Cyfunir sgoriau'r cwestiynau i gynhyrchu sgoriau ar gyfer pob maes asesu; yna, rhoddir pwysoliad iddynt i adlewyrchu eu pwysigrwydd i amcanion y Gronfa. Rhaid i geisiadau gael sgôr wedi'i gymedroli o 3 o leiaf ym mhob maes asesu; ni chaiff cais sy'n cael sgôr o 1 neu 2 mewn unrhyw faes asesu ei argymhell ar gyfer cyllid, waeth beth fo'i sgôr â phwysoliad cyffredinol, a chaiff ei dynnu allan o'r broses.

Bydd y prosesau dyrannu ar gyfer Cam 1 a Cham 2 yn sicrhau bod Gogledd Iwerddon, Cymru a phum rhanbarth y Hybiau Sero Net Lleol yn Lloegr yn derbyn lefel leiaf o gyllid yr un. Ar gyfer pob un o'r Camau hyn, dyrannir cyllid i ddechrau ar sail rhanbarthol i'r ceisiadau sy'n parhau yn y broses, gan ddyrannu i'r ceisiadau sydd â'r sgoriau uchaf o bob rhanbarth yn gyntaf, ac yna'r rhai â'r sgoriau uchaf nesaf, nes bod y gyfran o gyllideb gyllid y Cam a neilltuwyd ar gyfer rhanbarth wedi'i disbyddu. Yna, dyrannir y gyllideb gyllid sy'n weddill ar gyfer pob Cam ar sail yr holl ranbarthau, gan ddyrannu eto yn nhrefn disgynnol y sgoriau i geisiadau sy'n parhau yn y broses nes bod y gyllideb gyllid wedi'i disbyddu. Bydd GBE yn gallu trosglwyddo unrhyw gyllidebau cyllid heb eu dyrannu ar gyfer Cam 1 a Cham 2 rhwng rhanbarthau ac rhwng y Camau hyn. Dyrannir cyllid ar gyfer Cam 3 i geisiadau sy'n parhau yn y broses yn nhrefn disgynnol y sgoriau nes bod cyllideb gyllid Cam 3 wedi'i disbyddu.

Pan fydd dau gais neu ragor yn cael yr un sgôr asesu â phwysoliad cyffredinol, ac nad oes digon o gyllid i gefnogi pob un ohonynt, bydd Great British Energy yn defnyddio'r drefn ganlynol ar gyfer datrys y sefyllfa gyfartal:

- Y cais sydd â'r sgôr uwch ar gyfer Hyfywedd a Chyflawniadwyedd y Prosiect
- Os bydd ceisiadau'n parhau i fod yn gyfartal, y cais sydd â'r sgôr uwch ar gyfer Perchnogaeth a Budd i'r Gymuned.
- Os bydd ceisiadau'n parhau i fod yn gyfartal ar y cam hwn, y cais sy'n gofyn am y swm is o gyllid a gaiff ei ariannu.

Bydd ceisiadau a argymhellir ar gyfer cyllid yn dilyn asesiad yn cael eu rhoi ar restr fer ar gyfer diwydrwydd dyladwy. Nid yw llunio rhestr fer yn gwarantu cyllid ac nid yw'n creu unrhyw hawl i dderbyn cyllid. Rhaid i ymgeiswyr a argymhellir ar gyfer cyllid gwblhau'r holl wiriadau diwydrwydd dyladwy yn llwyddiannus cyn y gellir gwneud unrhyw gynnig cyllid, ac mae pob cynnig cyllid yn ôl disgresiwn GBE. Bydd ceisiadau nad ydynt yn cael eu rhoi ar restr fer ar gyfer diwydrwydd dyladwy yn cael gwybod am ganlyniad eu cais a gallant dderbyn adborth.

Mae gan Great British Energy yr hawl i gynnig swm is o gyllid nag a ofynnwyd amdano, lle ystyrir yn briodol, a bydd unrhyw gynnig cyllid yn parhau i fod yn amodol ar gwblhau diwydrwydd dyladwy a chytuno ar Gytundeb Cyllido Grant.

Gan mai cronfa gystadleuol yw hon gyda chyllideb gyfyngedig ar gael, anogir ceisiadau i ddangos achos cryf a chymhellol ar draws pob maes asesu.

Atodiad 2 - Sut i wneud Cais

Rhaid cyflwyno ceisiadau drwy'r porth ymgeisio ar-lein, sydd ar gael [yma](#). Wrth gwblhau cam cyntaf y cais, bydd sefydliadau'n gallu creu manylion mewngofnodi a chyfeirnod cais a ddefnyddir trwy gydol holl gamau'r cais. Rhaid i'r unigolyn sy'n cyflwyno cam cyntaf y cais fod yr unigolyn sy'n cyflwyno pob cam o'r cais, gan y bydd eu cyfeiriad e-bost yn cael ei ddefnyddio i gael mynediad at y wefan.

Mae'r broses ymgeisio ar-lein yn caniatáu ychwanegu cydweithwyr drwy ddewis 'invite collaborators' (gwahodd cydweithwyr) o dan y pennawd 'manage application' (rheoli'r cais). Dylid cadw llygad ar gyfeiriad e-bost yr unigolyn sy'n cyflwyno cam cyntaf y cais ar gyfer gohebiaeth sy'n ymwneud â'r cais. Mae GBE wedi ymrwymo'n llawn i sicrhau bod ymgeiswyr yn cael cefnogaeth trwy gydol y broses ymgeisio, a bod cwestiynau ymgeiswyr yn cael eu hateb ym mhob cam. Os oes angen rhagor o eglurhad neu wybodaeth ar ymgeiswyr ynghylch eu cais, anfonwch e-bost at LocalGrants@gbe.gov.uk a bydd GBE yn ymdrechu i ymateb cyn gynted â phosibl.

Bydd GBE Local yn cyhoeddi rhestr ar-lein o gwestiynau ac atebion yn ymwneud â'r holl gwestiynau a ofynnwyd; bydd hon ar gael yn <https://www.GBE.gov.uk/funding/gbe-community-fund/>.

Hysbysiad Preifatrwydd

Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd yn nodi sut y caiff data personol ei brosesu. Er mwyn bwrw ymlaen â'r cais, rhaid i'r ymgeisydd gadarnhau ei fod wedi darllen yr Hysbysiad Preifatrwydd.

Datgelu Gwybodaeth

Mae'r adran hon yn darparu gwybodaeth ynghylch rhwymedigaethau GBE (gan gynnwys Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA), Deddf Diogelu Data 2018 (DPA), Rheoliad Cyffredinol Diogelu Data y DU (UK GDPR) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (EIR) rhag ofn y derbynnir cais am wybodaeth. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am FOIA ac EIR (gan gynnwys gwybodaeth am eithriadau) yn: <https://cy.ico.org.uk/for-organisations/>.

Mae gofyn i ymgeiswyr gydweithredu â GBE wrth ddarparu gwybodaeth o'r fath sy'n ymwneud â rhwymedigaethau adrodd gorfodol GBE. Mae Great British Energy (GBE) yn ddarostyngedig i ystod o rwymedigaethau cyfreithiol sy'n ymwneud â thrin gwybodaeth a data, gan gynnwys Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA), Deddf Diogelu Data 2018 (DPA), Rheoliad Cyffredinol Diogelu Data y DU (UK GDPR) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (EIR).

Gall fod angen i ymgeiswyr ddarparu gwybodaeth i gefnogi rhwymedigaethau adrodd a datgelu statudol GBE, a disgwylir iddynt gydweithredu â cheisiadau rhesymol am wybodaeth.

Pan fydd GBE yn derbyn cais am wybodaeth sy'n ymwneud â chais, ymgeisydd, prosiect neu drydydd parti, bydd yn ystyried y cais yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol ac yn penderfynu a ddylid datgelu neu gadw unrhyw wybodaeth yn ôl. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am FOIA ac EIR ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Atodiad 3 - Cwestiynau Cyffredin am y Porth Ceisiadau

A gaf i gadw'r cais wrth i mi fynd yn ei flaen?

Gallwch, gallwch gadw'r atebion wrth i chi weithio ar y cais. Gallwch weld y cynnydd ar draws gwahanol rannau o'r ffurflen gais, a fydd yn dangos a ydynt wedi'u cwblhau, ar y gweill neu heb eu cychwyn.

Dydw i ddim wedi derbyn yr e-bost cadarnhau cyfrif

Gwiriwch eich ffolder sbam. Ychwanegwch gyfeiriad e-bost y porth at eich rhestr o anfonwyr diogel. Y cyfeiriad yw noreply@GBECFgrant.energysecurity.gov.uk. Gallwch wedyn ofyn i'r e-bost cadarnhau gael ei ail-anfon drwy fewngofnodi eto. Os credwch eich bod wedi cam-deipio eich cyfeiriad e-bost wrth greu eich cyfrif, cysylltwch â localgrants@gbe.gov.uk

Rydw i wedi anghofio fy nghyfrinair

Defnyddiwch y ddolen 'wedi anghofio cyfrinair' ar y dudalen mewngofnodi.

Mae fy nghyfrif wedi'i gloi

Efallai eich bod wedi nodi cyfrinair anghywir gormod o weithiau. Os ydych chi'n gwybod eich cyfrinair, arhoswch am 10 munud ac yna ceisiwch fewngofnodi eto. Efallai nad oes cyfrif yn gysylltiedig â'r cyfeiriad e-bost rydych chi'n ceisio mewngofnodi ag ef. Defnyddiwch y ddolen 'wedi anghofio cyfrinair' ar y dudalen fewngofnodi.

Dydw i ddim yn gallu creu cyfrif

Efallai bod gennych gyfrif eisoes, o bosib o gynllun arall. Mewngofnodwch gan ddefnyddio'r manylion a ddefnyddiwyd gennych i greu'r cyfrif yn wreiddiol. Os ydych wedi anghofio eich cyfrinair, defnyddiwch y ddolen 'wedi anghofio cyfrinair' ar y dudalen fewngofnodi.

Dydw i ddim yn gallu mewngofnodi

Efallai nad yw'r cyfeiriad e-bost rydych chi'n ei nodi ar y dudalen mewngofnodi yn cyfateb i'r cyfeiriad e-bost a ddefnyddioch i greu cyfrif. Crëwch gyfrif drwy'r ddolen ar y dudalen mewngofnodi.

Dydw i ddim yn gallu cwblhau cam dilysu dau ffactor wrth fewngofnodi

Mewngofnodwch gan ddefnyddio cod adfer:

1. Mewngofnodwch gan ddefnyddio eich cyfeiriad e-bost a'ch cyfrinair arferol
2. Pan ofynnir am god dilysu dau ffactor, cliciwch y ddolen i “fewngofnodi gyda chod adfer” yn hytrach na nodi cod yn y blwch
3. Nodwch god adfer pan ofynnir amdano.

Dylech fod wedi mewngofnodi i'ch cyfrif erbyn hyn. Os na wnaethoch chi nodi eich codau adfer pan wnaethoch chi greu eich cyfrif am y tro cyntaf, neu os ydych chi wedi'u colli, cysylltwch â LocalGrants@gbe.gov.uk.

Ar ôl mewngofnodi gyda chod adfer, ailosodwch eich dull dilysu:

1. Cliciwch ar y ddolen “Manylion cyfrif” yn y gornel dde uchaf
2. Cliciwch ar y ddolen “Dilysu dau ffactor” ar yr ochr chwith
3. Cliciwch ar y ddolen “Ailosod dull dilysu”
4. Cliciwch y botwm “Ailosod dilysu” a dilynwch y cyfarwyddiadau i sefydlu cyfrif ar gyfer y porth yn eich ap dilysu (fel y gwnaethoch pan greoch eich cyfrif gyntaf).

Unwaith y bydd y broses wedi'i chwblhau, gallwch ddefnyddio codau eich ap dilysu i fewngofnodi fel o'r blaen. Os na wnaethoch chi nodi eich codau adfer pan wnaethoch chi greu eich cyfrif yn wreiddiol, neu os ydych chi wedi'u colli, argymhellir eich bod yn creu ac yn nodi codau newydd ar ôl mewngofnodi fel y disgrifir uchod. Gallwch wneud hyn drwy fynd i'r ddolen “Manylion y cyfrif”, yna i “Dilysu dau ffactor”, ac yna i “Ailosod codau adfer”.